



Gweddnewid Dyfodol Plant

Pecyn adnoddau gwrthdlodi i gynorthwyo sefydliadau celfyddydol, diwylliannol a threftadaeth wrth iddynt greu llwybrau at gyfranogiad diwylliannol

*national
museum
wales
amgueddfa
cymru*



Cynnwys

1. Cefndir	4
2. Y Cyd-destun tlodi plant	6
Beth yw ystyr tlodi plant?	6
Cynlluniau Gweithredu Llywodraeth Cymru ar Drechu Tlodi	9
Cymunedau yn Gyntaf	9
Pa grwpiau sy'n wynebu'r risg fwyaf o ddiodef tlodi plant?	11
Pa effaith y mae byw mewn tlodi yn ei chael ar fywydau plant a phobl ifanc?	13
3. Mynd i'r Afael â'r Rhwystrau	16
Pam y dylai pobl ifanc gyfranogi?	16
Barn pobl ifanc am y rhwystrau at y celfyddydau	16
Elfennau hollbwysig projectau llwyddiannus cyfranogi yn y celfyddydau	19
4. Astudiaethau Achos	20
Astudiaeth Achos 1: FILMCLUB	20
Astudiaeth Achos 2: Glyn-coch – Gwneud Gwahaniaeth drwy Bartneriaethau Cymunedol ac Addasu Rhaglenni	21
Astudiaeth Achos 3: Glasgow Life – Rhoi Plant a Phobl Ifanc wrth wraidd Gweithgareddau Amgueddfeydd. Gwrando ar Leisiau Pobl Ifanc	23
Astudiaeth Achos 4: Crochan a Ffwrnais – Cyrraedd Cynulleidfaoedd Newydd a Newid Agweddau drwy'r Celfyddydau a Threftadaeth	24
Astudiaeth Achos 5: Project Bling Amgueddfa Cymru – Cyfuno'r Celfyddydau ac Amgueddfeydd er mwyn darparu Cyfleoedd Newydd i Bobl Ifanc	26
5. Pecyn Gweithredu	29
5.1 Targedu ymdrechion	30
5.2 Gweithio gydag ysgolion	33
5.3 Partneriaethau	38
5.4 Galluogi pobl ifanc i leisio eu barn	41
5.5 Gweithio gyda chynulleidfaoedd Cymraeg eu hiaith	44
5.6 Gwerthuso	46
5.7 Eiriolaeth ar gyfer y celfyddydau	48
5.8 Cyllid	52

Gweddnewid Bywydau Plant

Roedd yn bleser derbyn gwahoddiad i ysgrifennu rhagair y cyhoeddiad hwn. Mae'n gyfraniad pwysig at un o'm prif flaenoriaethau fel y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon – yr her i'n cyrff diwylliannol i gefnogi ein hymdrechion cyffredinol i drechu tlodi plant.

Mae Amgueddfa Cymru eisoes wedi derbyn yr her hon. Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol a'i gydweithwyr yn meddu ar yr arbenigedd a'r brwdfrydedd ym maes amgueddfeydd ac addysg. Maent wedi cydnabod bod angen i'r Amgueddfa weithredu mewn partneriaeth ehangach er mwyn cael mwy o effaith. Mae Amgueddfa Cymru mewn sefyllfa i wneud a chyflawni llawer ac, yn wir, mae'r Amgueddfa wedi cyflawni llawer ers cyflwyno'r system mynediad am ddim ddegawd yn ôl. Roedd arddangosfa Bling, a gynhaliwyd yn ddiweddar gan yr Amgueddfa, sy'n cael ei disgrifio yn y pecyn adnoddau hwn yn un enghraifft o'i gwaith gyda phlant a phobl ifanc. Gan edrych i'r dyfodol, rwy'n credu bod y gwaith o ailddatblygu Sain Ffagan yn gyfle gwirioneddol i ymgysylltu â llawer mwy o bobl ifanc o bob cefndir, gan ddarparu cyfleoedd addysgol gwerthfawr iddynt, a phrofiadau a sgiliau ymarferol hollbwysig a fydd yn ddefnyddiol iddynt trwy gydol eu bywydau.

Ond ni all y sector diwylliannol drechu'r tlodi sy'n effeithio ar un o bob tri o blant yng Nghymru ar ei ben ei hun. Mae angen ymrwymiad y cyrff hyn i gydnabod eu dyletswydd i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru, beth bynnag eu cefndir, eu hiaith, eu huchelgeisiau neu eu lleoliad, a chyflawni'r ddyletswydd honno.

Hyn sy'n sail i'm penderfyniad i ofyn i'r Farwnes Kay Andrews OBE adrodd yn ôl i mi ar sut y gallai diwylliant gyfrannu mwy at y gwaith o leddfu tlodi. Yn yr adroddiad gwneir cyfres o argymhellion ar sut y gallwn sicrhau bod y gwaith gwych sy'n cael ei wneud yn fwy cydgysylltiedig a phendant, er mwyn cael mwy o ddylanwad ar fywydau mwy o bobl sy'n byw mewn tlodi. Rydym yn awyddus i'r sector diwylliannol yng Nghymru fod yn esiampl i wledydd eraill yn y maes gwaith hwn. Ni ddylai'r ffaith bod arian yn brin atal yr ymdrech.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phawb yn y sector amgueddfeydd i geisio lleddfu tlodi profiad ymhlith ein plant a'n pobl ifanc.



Y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon, John Griffiths AC

1. Cefndir

Mae Cymru wedi gwneud gwaith arloesol i ddiogelu a hyrwyddo hawliau plant a phobl ifanc yn y DU. Yn 2010, cafodd deddfwriaeth, a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ei phasio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, sef deddfwriaeth i gyflwyno darpariaethau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) <http://www.unicef.org/crc/>. Hon oedd y deddfwriaeth gyntaf yn y DU i wneud hynny. Mae Erthygl 31 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn datgan bod gan blant hawl i 'ymlacio, hamdden, chwarae, gweithgareddau hamdden, bywyd diwylliannol a'r celfyddydau'. Cymru hefyd oedd y wlad gyntaf yn y DU i benodi Comisiynydd Plant.

Mae'r CCUHP yn sail i benderfyniadau Llywodraeth Cymru ar flaenoriaethau ac amcanion, a dylai hefyd fod yn sail i benderfyniadau ar strategaeth a darpariaeth gwasanaeth lleol. Mae'r 42 o erthyglau'r CCUHP wedi'u crynhoi yn 7 nod craidd Llywodraeth Cymru. Mae gan bob un o'r nodau hyn oblygiadau ar gyfer yr agenda trechu tlodi plant.

Y saith nod craidd yw y dylai pob plentyn a pherson ifanc:

1. cael dechrau teg mewn bywyd
2. cael amrywiaeth gynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysgu
3. mwynhau'r iechyd gorau posibl heb gael eu cam-drin, eu fictimeiddio na'u hecsbloetio
4. cael mynediad i weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol
5. cael eu clywed, eu trin â pharch a bod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cydnabod
6. cael cartref diogel a chymuned sy'n cefnogi lles corfforol ac emosiynol
7. osgoi cael eu rhoi dan anfantais oherwydd tlodi

Yn 2009, cofrestrodd Amgueddfa Cymru ar gyfer Cytundeb Tlodi Plant Llywodraeth Cymru, gan wneud ymrwymiad i gyfrannu'n weithredol at yr ymdrech i helpu i wella bywydau plant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi. Rhoddodd Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 ddyletswydd gyfreithiol ar yr Amgueddfa (yn ogystal â nifer o Awdurdodau eraill yng Nghymru) i ddatblygu a chynhyrchu Strategaeth Tlodi Plant a oedd yn dangos y camau y byddai'n eu cymryd i gyfrannu at yr agenda hon, gan ganolbwyntio'n benodol ar *leihau anghydraddoldeb wrth gyfranogi mewn gweithgareddau diwylliannol, chwaraeon a hamdden rhwng plant a rhwng rhieni/gofalwyr plant, cyn belled ag y bo modd, i sicrhau lles plant*).

Mae strategaeth Amgueddfa Cymru 2012-15, **Gweddnewid Dyfodol Plant**

www.amgueddfacymru.ac.uk/3603, yn cydnabod bod angen i'r Amgueddfa weithio mewn partneriaeth ag ystod eang o sefydliadau er mwyn creu llwybrau mynediad i blant a phobl ifanc mewn cartrefi incwm isel. Drwy wybodaeth leol ac arbenigol, gallwn sicrhau dealltwriaeth arbenigol o'r hyn sydd angen ei wneud er mwyn mynd i'r afael â'r heriau.

Wrth gydnabod yr effaith gadarnhaol y gall ymgysylltiad a chyfranogiad diwylliannol ei chael ar blant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi, a phwysigrwydd sylfaenol gweithio mewn partneriaeth a chydweithredu er mwyn cyflawni'r effaith hon, cynhaliodd Amgueddfa Cymru, mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru, gynhadledd undydd ar y pwnc ar 17 Gorffennaf 2012. Daeth mwy na 130 o bobl ynghyd yn y digwyddiad **Gweddnewid Bywydau Plant** i drafod sut y gallant hwy a'u sefydliadau weithredu a galluogi mwy o blant a phobl ifanc i gyfranogi'n ddiwylliannol. Roedd y cynrychiolwyr yn cynnwys:

- yr amgueddfa, y sector treftadaeth a'r sector diwylliannol yng Nghymru
- elusennau plant
- Gwasanaethau Dysgu Teuluoedd Awdurdodau Lleol, a Chydgyssylltwyr Plant a Phobl Ifanc
- Llywodraeth Cymru
- Ysgolion, Addysg Bellach ac Addysg Uwch

Yn dilyn y digwyddiad hwn cynhaliwyd seminar ar **Gyfranogiad Diwylliannol Plant a Phobl Ifanc sy'n Profi Tlodi** ar 4 Hydref 2013.

www.amgueddfacymru.ac.uk/gweddnewid_dyfodol

Y themâu cyffredinol a drafodwyd yn y seminar hwn oedd:

- Beth yw bywydau a chymhelliant diwylliannol plant a phobl ifanc?
- Beth yw manteision ac effeithiau cyfranogiad yn y ddarpariaeth ddiwylliannol gyhoeddus o ran ymgysylltu â phlant?
- Beth a ddywed gwaith ymchwil wrthym sy'n rhaid ei wneud er mwyn newid bywydau diwylliannol plant a phobl ifanc er gwell ac yn gynaliadwy?

Mae'r pecyn adnoddau hwn yn ategu'r gynhadledd a'r seminar, ac fe'i cynlluniwyd i gyfeirio unrhyw un sydd â diddordeb yn y maes hwn at ragor o wybodaeth, cysylltiadau a phartneriaid posibl.

Mae'r gynhadledd a'r seminar yn ddechrau'r hyn rydym yn gobeithio a fydd yn drafodaeth barhaus ar draws y sectorau, ymysg y rhai sy'n gyfrifol am les plant ac, yn anad dim, gyda phlant a phobl ifanc eu hunain.

2. Y Cyd-destun Tlodi Plant

Beth yw ystyr tlodi plant?

1. Yr Undeb Ewropeaidd

Mae "tlodi" plant yn cael ei fesur ar sail diffiniad yr UE o blant sydd "mewn perygl o dlodi", h.y.:

- mae'r trothwy perygl o dlodi wedi'i bennu fel 60% o gyfrif cyfwerthedd incwm cartref canolrifol* cenedlaethol
- yr incwm cartref sy'n cael ei ystyried yn gyfanswm incwm cartref (gan gynnwys enillion pob aelod o'r cartref, trosglwyddiadau cymdeithasol sy'n cael eu derbyn gan aelodau unigol y cartref neu'r cartref cyfan, incwm cyfalaf...)¹

*Canolrifol – Pe bai pob cartref yn yr UE yn cael ei osod yn nhrefn incwm, o'r cyfoethocaf i'r tlotaf, y cartref yng nghanol y llinell fyddai'r incwm cartref canolrifol ar gyfer yr UE.

2. Llywodraeth y DU

Mae Deddf Tlodi Plant 2010 yn defnyddio pedwar mesur:

- **Incwm cymharol:** incwm cartref sy'n llai na 60% o'r incwm canolrifol cyfredol
- **Incwm isel cyfunol ac amddifadedd sylweddol*:** plant sy'n profi amddifadedd sylweddol ac sy'n byw mewn cartrefi ag incwm sy'n llai na 70% o'r incwm canolrifol presennol
- **Incwm absoliwt:** incwm cartref sy'n llai na 60% o incwm canolrifol 2010/11, sydd wedi'i addasu ar gyfer prisiau
- **Tlodi parhaus:** incwm cartref sy'n llai na 60% o'r incwm canolrifol presennol am o leiaf dair o'r pedair blynedd ddiwethaf.

*Amddifadedd sylweddol – pan nad yw plant yn profi achlysuron a gweithgareddau cymdeithasol megis:

- Gwyliau oddi cartref o leiaf un wythnos y flwyddyn gyda'r teulu
- Nofio o leiaf unwaith y mis
- Ffrindiau yn dod draw i gael te/byrbryd unwaith bob pythefnos
- Dathliadau ar achlysuron arbennig e.e. pen-blwyddi
- Mynd ar drip ysgol o leiaf unwaith y tymor.

¹ *Child Poverty and Well-Being in the EU: Current status and way forward* (Y Comisiwn Ewropeaidd 2008, t.14)

Er 2012, mae Llywodraeth y DU wedi ystyried y meini prawf canlynol hefyd:

- Incwm ac amddifadedd sylweddol
- Bod heb waith
- Dyled na ellir ei rheoli
- Tai gwael
- Lefel sgiliau rhieni
- Mynediad at addysg o safon
- Sefydlogrwydd teuluol
- Iechyd rhieni²

3. Cymru

Mae'r diffiniad o dlodi plant yng Nghymru yn seiliedig ar fesur cymharol o incwm isel, ac felly mae'n debyg i ddiffiniad Llywodraeth y DU. Er mai Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am nifer o'r dulliau ar gyfer mynd i'r afael â thlodi incwm, megis budd-daliadau a'r isafswm cyflog, gall Llywodraeth Cymru ddylanwadu ar rai o'r materion sydd wedi'u datganoli, drwy ei rôl fel cyflogwr mawr, ei dylanwad dros y sector cyhoeddus a'i dewisiadau ar gyfer rhai agweddau ar reoli polisi Llywodraeth ganolog.

Mesur 'incwm isel cymharol' y DU yw cartrefi lle mae'r incwm yn llai na 60 y cant o'r incwm cartref canolrifol, ar ôl didynnu costau tai. I deulu un riant gydag un plentyn o dan 14 oed, byddai hyn yn golygu £172 yr wythnos. I deulu dau riant gyda dau o blant o dan 14 oed, byddai hyn yn £308 yr wythnos. Yng Nghymru mae'r cyfraddau tlodi ymysg y rhai sydd mewn gwaith yn uwch na'r cyfraddau tlodi ymysg y rhai sy'n ddi-waith am y tro cyntaf erioed. (Mae 285,000 o bobl mewn teuluoedd sy'n gweithio yng Nghymru sy'n byw mewn tlodi, ac mae 275,000 o bobl mewn teuluoedd nad ydynt yn gweithio, sy'n byw mewn tlodi.)


Pan gyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth tlodi plant *Dyfodol Teg I'n Plant*³, rhoddwyd ystyriaeth i effeithiau ehangach tlodi a meysydd gweithgaredd o fewn ei rheolaeth. Roedd Adroddiad y Grŵp Gorchwyl ar Dlodi Plant⁴ wedi nodi tri phrif agwedd ar dlodi – Incwm, Gwasanaeth a Chyfranogiad – a oedd yn sail i gamau gweithredu Llywodraeth Cymru ar dlodi plant.

Mae *Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru* (2011) ac *Adroddiad Cynnydd* (2013) yma: <http://cymru.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/poverty/newcpstrategy/?skip=1&lang=cy>

² *Mesur Tlodi Plant: Ymgynghoriad ar fesurau gwell tlodi plant* (Llywodraeth EM, 2012, t.22)

³ <http://cymru.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/fairfuture/?skip=1&lang=cy>

⁴ <http://cymru.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/reportchildpovertygroup;jsessionid=h0QrK30RTrCQ2YKh7rZLkg81mmFnMfl6Z1KH4Tb2NfgKBy9vJR3D!1922798813?skip=1&lang=cy>



Er bod y prif fesur ar gyfer tlodi plant yn gysylltiedig ag incwm, mae'n amlwg y bydd methiant i fynd i'r afael ag agweddau ehangach amddifadedd yn cael effaith sylweddol ar les plant a phobl ifanc. Hynny yw, mae angen trechu'r tri math o dlodi er mwyn gwneud cynnydd gwirioneddol. Y sefydliadau hynny sy'n ymwneud â'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth sydd â'r cyfraniad mwyaf i'w wneud o ran mynd i'r afael â thlodi cyfranogiad. Fodd bynnag, efallai eu bod hefyd mewn sefyllfa i fynd i'r afael â thlodi incwm, er enghraifft, drwy eu harferion cyflogaeth

Mae adfywiad economaidd sy'n creu swyddi yn hollbwysig, ond mae'n adfywiad sy'n cymryd amser yn ôl Sefydliad Joseph Rowntree a'r New Policy Institute. Maent yn awgrymu bod angen canolbwyntio ar yr agweddau hynny ar dlodi nad ydynt yn gysylltiedig ag incwm, gan gynnwys **asedau personol** (gan gynnwys sgiliau, hyder a gobaith), a **gwasanaethau cyhoeddus** (sicrhau chwarae teg ac ansawdd da) hefyd. Yn arbennig, maent yn awgrymu profi gwasanaethau cyhoeddus yn erbyn anghenion teuluoedd sy'n gweithio sydd ar incwm isel.

- O blith poblogaeth o 600,000 o blant yng Nghymru, mae mwy na 200,000 o blant yn byw mewn tlodi, sydd wedi'i fesur yn ôl incwm isel ar ôl didynnu costau tai
- Golyga hyn fod 1 o bob 3 o blant yng Nghymru yn byw mewn tlodi – y gyfradd uchaf yn y DU ar ôl Llundain
- Mae tua 90,000 o blant yn byw mewn tlodi difrifol. Mae tlodi difrifol i gwpl gydag un plentyn yn golygu byw ar lai na £12,220 y flwyddyn. Mae'n rhaid i deuluoedd sydd yn y sefyllfa hon wneud dewisiadau anodd rhwng bwyd, gwres a hanfodion sylfaenol
- Daw mwy na hanner y plant sy'n byw mewn tlodi o deuluoedd sy'n gweithio
- Mae cael eu magu mewn tlodi yn effeithio ar iechyd, addysg a dyfodol economaidd plentyn – eu cyfleoedd a'u rhagolygon mewn bywyd.

Cynlluniau Gweithredu Llywodraeth Cymru ar Drechu Tlodi

Roedd **Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi** Llywodraeth Cymru (2012-2016) yn ymgorffori'r tri amcan strategol sydd wedi'u cynnwys yn *Strategaeth Tlodi Plant* 2010, ac roedd yn cydnabod bod angen i ni fynd i'r afael â thlodi yn ei gyfanrwydd, gan weithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion er mwyn trechu tlodi plant.

Roedd *Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi* 2012 yn amlinellu prif amcanion ymrwymiad Llywodraeth Cymru i:

1. Atal tlodi
2. Helpu pobl allan o dlodi
3. Lliniaru effaith tlodi.

<http://cymru.gov.uk/docs/dsjlg/publications/socialjustice/120625tackpovplancy.pdf>

Roedd **Creu Cymunedau Cryf: Symud Ymlaen â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi**, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2013 yn rhoi amlinelliad o'r ffordd y byddai'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn dod yn rhaglen ar gyfer trechu tlodi. Mae'r cynllun yn adeiladu ar 3 ymrwymiad cynharach:

- **Atal Tlodi yn y Blynyddoedd Cynnar:** Gwella cyrhaeddiad addysgol plant ifanc o deuluoedd incwm isel, drwy Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a'r grant Amddifadedd Disgyblion (Atal)
- **Galluogi pobl i symud allan o dlodi:** Lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (helpu pobl allan o dlodi), uwchsgilio a symud i swyddi (Galluogi)
- **Camau i Lliniaru Effaith Tlodi:** Sicrhau mynediad teg a chyfartal i wasanaethau hanfodol – gan gynnwys gwasanaethau digidol (Lliniaru) (Wedi'i grynhoi fel Atal-Galluogi-Lliniaru.)
<http://cymru.gov.uk/docs/dsjlg/publications/socialjustice/130703takeforpovactplancy.pdf>

Cymunedau yn Gyntaf: rhaglen newydd Llywodraeth Cymru

Rhaglen **trechu tlodi** yw Cymunedau yn Gyntaf Llywodraeth Cymru. Mae'n canolbwyntio ar yr unigolion sydd fwyaf agored i niwed yng Nghymru sy'n byw yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf. Mae cyfranogiad cymunedol yn hollbwysig ac mae'n golygu canolbwyntio ar y grwpiau anoddaf i'w cyrraedd a'r **mwyaf agored i niwed**, gan gynnwys lleiafrifoedd ethnig, pobl ag anabledau a phobl ifanc ddi-waith.

Ers mis Ebrill 2013, mae ffocws Cymunedau yn Gyntaf wedi newid o raglen sy'n seiliedig ar wardiau, i un sy'n seiliedig ar Glystyrau. Mae nifer y Partneriaethau a oedd yn gyfrifol am drechu tlodi yn y wardiau difreintiedig yn y gorffennol wedi lleihau. Fodd bynnag, mae'r 52 clwstwr **newydd** yn cynnwys pob un o'r 100 ardal â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru, yn ôl diffiniad Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (mae manylion pellach am hyn yn adran 5.1).

I gael manylion am leoliad y clystyrau, a/neu i ddod o hyd i'ch clwstwr/clystyrau agosaf, gweler:

<https://statscymru.cymru.gov.uk/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Communities-First/Cluster-Maps>

Bydd gan y mwyafrif o Awdurdodau Lleol yng Nghymru o leiaf un Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf (ac eithrio Ceredigion, Powys a Sir Fynwy). Mae gan rai Awdurdodau Lleol nifer o Glystyrau e.e. mae gan Rhondda Cynon Taf 8. Maint cyfartalog poblogaeth clwstwr yw 15,000 o unigolion.

Bydd y Clystyrau yn canolbwyntio ar gynorthwyo'r bobl sydd fwyaf agored i niwed yn y 10% o ardaloedd sydd â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru. Mae'r gwaith yn y Clystyrau yn seiliedig ar dri chanlyniad strategol:

1. Cymunedau Ffyniannus
2. Cymunedau sy'n Dysgu
3. Cymunedau Iachach

Mae gan bob Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf **Gynllun Cyflawni** sy'n manylu ar y canlyniadau y maent yn gweithio tuag atynt, sut y bydd y rhain yn cael eu cyflawni a beth fydd cyfraniad y gwaith hwn i'r nod cyffredinol o drechu tlodi.

Fel rhan o'r Cynllun Cyflawni, mae gan bob Clwstwr **Gynllun Cynnwys y Gymuned**, sy'n dangos sut y bydd pobl a sefydliadau cymunedol lleol yn cynllunio ac yn cyflawni gwaith gyda phartneriaid allweddol. Mae'r cynlluniau hyn ar gael gan y Corff Cyflawni Arweiniol.

Bydd gan bob clwstwr **Reolwr Clwstwr**, a fydd yn gweithio gyda chydgyssylltwyr neu weithwyr project Cymunedau Dysgu, Ffyniannus ac Iachach. (Efallai mai'r gweithiwr arbenigol sy'n gyfrifol am Ddysgu fydd y gweithiwr mwyaf perthnasol ar gyfer sefydliadau'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth.) Efallai y bydd gan glystyrau gydgyssylltwyr Cynnwys Cymunedau ac efallai y bydd staff arbenigol eraill ar gael e.e. sy'n gweithio gyda phobl ifanc neu gymunedau du, asaid neu leiafrifoedd ethnig, a allai fod yn gymheiriaid defnyddiol i sefydliadau'r celfyddydau/diwylliant/treftadaeth sy'n awyddus i weithio gyda grŵp penodol o bobl ifanc. Gofynnwch i Reolwr y Clwstwr am y cyswllt/cysylltiadau gorau.

Mae'r **Fframwaith Canlyniadau** yn cynnwys dangosyddion cyson y dylid eu defnyddio er mwyn mesur projectau tebyg. Mae'r Fframwaith yn seiliedig ar egwyddorion Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau a ddefnyddir i fesur effaith y Rhaglen.

Ymhlith yr enghreifftiau o ganlyniadau mae:

Cymunedau Ffyniannus

- Mae pobl mewn grwpiau anodd eu cyrraedd yn ymgysylltu
- Mae pobl ifanc yn teimlo'n fwy hyderus wrth chwilio am waith ac mae ganddynt ddealltwriaeth well o beth sydd ar gael iddynt.

Cymunedau sy'n Dysgu

- Mae plant yn barod am yr ysgol ac yn darllen yn amlach
- Mae rhieni a theuluoedd yn teimlo'n fwy cadarnhaol ynglŷn ag addysg eu plant ac mae ganddynt berthynas gadarnhaol gydag ysgolion
- Mae cymunedau'n lleoedd ble gall pobl ddysgu ac mae'r rhwystrau at ddysgu yn cael eu diddymu.

Cymunedau Iachach

- Mae chwarae yn cael ei hyrwyddo ac yn hygyrch mewn mannau diogel
- Mae cymunedau'n darparu amgylcheddau diogel a chefnogol
- Mae lefelau uwch o gyfranogiad mewn gweithgareddau hamdden
- Mae gweithgarwch cymdeithasol ar gael yn lleol ac mae pobl yn teimlo'n rhan o'u cymuned.

Bydd yn rhaid i bob un o'r Clystyrau ddangos sut maent yn cyflawni yn erbyn y canlyniadau, gan ddefnyddio'r mesurau sy'n cael eu disgrifio yn y ddogfen Fframwaith. Mae'r mesurau hyn i'w gweld yn Atodiad 5 drwy'r ddolen isod.

<http://cymru.gov.uk/docs/dsjlg/publications/comm/130905cfprogrammeguidanceappendicies13cy.pdf>

Bydd yn ddefnyddiol i sefydliadau'r celfyddydau/diwylliant/treftadaeth, sy'n awyddus i weithio gyda phrojectau Cymunedau yn Gyntaf, ystyried sut y gallant helpu'r Clwstwr/Clystyrau i gyflawni yn erbyn eu canlyniadau a'u mesurau. Gallai fod yn fuddiol edrych ar y fframweithiau ar gyfer Cymunedau Ffyniannus ac Iachach, ac nid dim ond y Cymunedau sy'n Dysgu.

Mae **cyllidwyr** yn gofyn yn aml i sefydliadau'r celfyddydau/diwylliant/treftadaeth nodi sut maent yn trechu anfantais. Mae canolbwyntio ar Glystyrau Cymunedau yn Gyntaf a/neu weithio mewn ardaloedd Clwstwr yn un ffordd o ddangos i gyllidwyr eich bod yn targedu eich gwaith ac yn dangos dull gweithredu strategol cydgysylltiedig o ymdrin â blaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru.

Pa grwpiau sy'n wynebu'r risg fwyaf o dlodi plant?

Teuluoedd Heb Waith, Teuluoedd Di-waith a Theuluoedd sydd wedi'u Tangyflogi

Oni bai bod pob oedolyn yn y teulu'n gweithio (a bod o leiaf hanner y rhain yn gweithio'n llawn amser), mae'r risgiau o fod ar incwm isel yn parhau i fod yn uchel: 85% i deuluoedd di-waith, 75% i deuluoedd eraill heb waith ac (yn arbennig) 30% i'r rhai lle mae'r oedolion yn gweithio'n rhan amser. **Mae teuluoedd lle mae un oedolyn yn gweithio'n rhan amser hefyd yn grŵp mewn perygl ac yn gyffredinol, plant a phobl ifanc sy'n byw mewn cartrefi incwm isel.**

Cartrefi ag oedolion o oedran gweithio sy'n meddu ar nifer fach o gymwysterau, neu ddim cymwysterau o gwbl

O'r teuluoedd hynny a oedd yn byw mewn tlodi parhaus rhwng 2001 a 2004, roedd 19% o'r rhain yn oedolion o oedran gweithio heb unrhyw gymwysterau (ffigurau'r DU). Yn benodol, mae **teuluoedd â mamau heb unrhyw gymwysterau** wedi'u nodi fel grŵp mewn perygl.

Teuluoedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig

Mae gan 14.5% o blant sy'n byw mewn tlodi difrifol darddiad ethnig Asiaidd ac Asiaidd Prydeinig (ffigurau'r DU). Mae rhai **mewn fudwyr a lleiafrifoedd ethnig**, gan gynnwys y **gymuned sipsiwn a theithwyr**, yn grwpiau mewn perygl, yn ogystal â ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

Teuluoedd Unig Riant

Yn y cyfnod rhwng 2003/04 a 2005/06, roedd 40% o'r plant mewn cartrefi incwm isel yn y DU yn dod o deuluoedd unig riant (ffigurau'r DU).

Teuluoedd sy'n ymdopi ag anabledd (neu rywun â salwch hirdymor)

Mae 55% o deuluoedd â phlant anabl yn byw mewn tlodi neu ar gyrion tlodi. Roedd 31% o gartrefi â phlant gydag un neu fwy o oedolion anabl yn byw mewn tlodi (ffigurau'r DU).

Teuluoedd mwy gyda 4 neu fwy o blant

Yn 2004/5, roedd plant mewn teuluoedd gyda 4+ o blant yn cynrychioli 19% o blant tlawd yn y DU.

Teuluoedd a phobl ifanc digartref

Mae plant a phobl ifanc sy'n byw mewn tai cymdeithasol, plant a phobl ifanc sy'n byw mewn llety dros dro yn wynebu mwy o risg.

Plant sy'n Derbyn Gofal

Mae plant sy'n gadael gofal 50 gwaith yn fwy tebygol o fynd i'r carchar, 60 gwaith yn fwy tebygol o fod yn ddigartref ac 88 gwaith yn fwy tebygol o ddefnyddio cyffuriau, o gymharu â phlant a phobl ifanc nad ydynt yn 'derbyn gofal' gan Awdurdodau Lleol. Mae **plant a phobl ifanc sydd mewn gofal, yn ogystal â'r rhai sy'n gadael gofal, yn wynebu risg**. Dim ond 47% o'r rhai sy'n gadael gofal sydd mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

Pobl ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant

neu blant/pobl ifanc sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Amcangyfrifir bod mwy na 12% o bobl ifanc 16-18 oed yng Nghymru nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

Gofalwyr Ifanc

Mae gofaluwyr ifanc rhwng 16 a 18 oed ddwywaith yn fwy tebygol o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

O'r grwpiau hyn, bydd rhai ohonynt yn byw mewn **tlodi parhaus** neu **dlodi difrifol**.

Defnyddir y term 'tlodi parhaus' i ddisgrifio teuluoedd sydd wedi byw mewn tlodi am o leiaf dair o'r pedair blynedd ddiwethaf.

Defnyddir 'tlodi difrifol' i ddisgrifio teuluoedd ag incwm sy'n llai na 50% o'r incwm canolrifol, a lle nad oes gan blant ddau o'r hanfodion penodol, am na all y teulu eu fforddio a phan na fydd gan oedolyn o leiaf un o'r hanfodion hynny.

Pa effaith y mae byw mewn tlodi yn ei chael ar fywydau plant a phobl ifanc?

Dyma rai enghreifftiau o'r effeithiau y gall byw mewn tlodi eu cael ar fywydau plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn o bell ffordd, ond bydd yn rhoi syniad o'r ystod o faterion gwahanol y bydd angen mynd i'r afael â hwy, er mwyn sicrhau canlyniadau mwy cadarnhaol i blant a phobl ifanc yn ein cymunedau.

Mae tlodi plant yn cyfyngu ar ragolygon bywyd yn y dyfodol, o ran: cyflogaeth, hyfforddiant, perthnasau teuluol a chymdeithasol cadarnhaol a pharhaus, iechyd corfforol a meddyliol da a hirhoedledd. Mae'n cael effaith ddifrifol ar brofiadau plentyndod.⁵

Bywyd Teuluol

- Nid yw plant o deuluoedd incwm isel yn gallu manteisio'n aml ar weithgareddau megis clybiau ar ôl ysgol, tripiâu ysgol a gwahodd ffrindiau i de.⁶
- Mae plant o deuluoedd incwm isel yn fwy tebygol o fod heb gotiau cynnes yn y gaeaf, prydau bwyd digonol a gwres yn y cartref.⁷
- Nid oes gan blant o deuluoedd incwm isel lawer o le i chwarae, os o gwbl, ac maent yn byw mewn ardaloedd heb lawer o siopau neu amwynderau.⁸
- Nid yw 2% o gyplau ac 8% o unig rieni yn gallu fforddio dau bâr o esgidiau i bob plentyn.⁹
- Nid yw 12% o unig rieni yn gallu fforddio dathliadau gydag anrhegion ar achlysuron arbennig.¹⁰

⁵ Bradshaw J a Mayhew E (2005) *The Wellbeing of children in the UK*, Prifysgol Efrog ac Achub y Plant.

⁶ Magadi M. a Middleton, S., (2007) *Severe Child Poverty in the UK* Llundain: Achub y Plant.

⁷ Magadi M. a Middleton, S., (2007) *Severe Child Poverty in the UK* Llundain: Achub y Plant.

⁸ Crowley A a Vulliamy C (2002) *Listen Up! Children and Young People Talk: About Poverty*. Achub y Plant.

⁹ *Family and Children Study*, 2004, <http://dera.ioe.ac.uk/6158/1/rrep340.pdf>

¹⁰ *Family and Children Study*, 2004, <http://dera.ioe.ac.uk/6158/1/rrep340.pdf>

- Nid oedd 14% o'r teuluoedd mwyaf difreintiedig a ymatebodd i Arolwg Incwm Is na'r Cyfartaledd yr Adran Gwaith a Phensiynau¹¹, yn gallu caniatáu i'w plentyn ddilyn hobi oherwydd y gost.
- Mae plant sy'n cael eu magu mewn tlodi yn fwy tebygol o ddioddef o hunan-barch isel¹²
- Mae teuluoedd tlawd yn talu mwy am nifer o wasanaethau sylfaenol, gan gynnwys nwy a thrydan, bancio a chredyd. Amcangyfrifir bod costau ychwanegol mesuryddion rhagdalau, benthyciadau carreg y drws, peiriannau arian sy'n codi ffi a ffonau symudol talu wrth ddefnyddio oddeutu £1,000 y flwyddyn. Mae hyn oddeutu 9% o incwm gwario teulu cyffredin¹³

Addysg

- Mae plant sy'n cael eu magu mewn tlodi yn llawer llai tebygol o lwyddo yn yr ysgol, ac maent yn llawer mwy tebygol o adael y system addysg heb unrhyw gymwysterau o gwbl¹⁴
- Mae rhieni sydd wedi bod yn ddifreintiedig eu hunain pan oeddent yn blant yn fwy tebygol o gael plant nad ydynt yn llwyddo yn yr ysgol¹⁵
- Mae plant digartref yn colli 25% o'u haddysg ar gyfartaledd¹⁶
- Mae plant o deuluoedd incwm isel yn disgwyl derbyn addysg o safon is ac maent yn rhagweld canlyniadau addysgol gwaeth¹⁷
- Mae gwaith ymchwil wedi dangos bod y bwlch yng nghyflawniad addysgol plant mewn tlodi yn dwysáu gydag amser. Pan fydd plentyn o deulu incwm isel yn 3 oed, maent yn debygol o fod 9 mis y tu ôl i'w cymheiriaid mwy breintiedig. Pan fyddant yn 11 mae'r bwlch hwnnw'n dwysáu i 12 mis a phan fyddant yn 14 oed mae'r bwlch yn 20 mis¹⁸
- Mae plant sy'n byw mewn tai gwael 5 gwaith yn fwy tebygol o beidio â chael lle tawel i wneud eu gwaith cartref, o gymharu â phlant eraill¹⁹

¹¹ <https://www.gov.uk/government/publications/households-below-average-income-hbai-199495-to-201112>

¹² Ermisch, J. Francesconi, M. a Pevalin, D. (2001) *Outcomes for Children of Poverty*, DWP.

¹³ Achub y Plant/Family Welfare Association (2007) *The Poverty Premium: how poor households pay more for essential goods and services*, Llundain: SCF/FWA

¹⁴ Raffo, C. Dyson, A. Gunter, H. Hall, D. Jones, L. a Kalamouka, A. (2007) *Education and poverty*

¹⁵ Gregg, P, Harkness, S a MacMillan L (2006) *Welfare to work policies and child poverty: A review of issues relating to the labour market and economy*.

¹⁶ Mitchell, F., ac eraill, *Living in limbo: survey of homeless households living in temporary accommodation*, Shelter, Llundain, 2004.

¹⁷ Horgan, G. (2007) *The Impact of Poverty on Young Children's Experience of School*, Efrog, Sefydliad Joseph Rowntree.

¹⁸ Hirsch, D. (2006) *The cost of not ending child poverty How we can think about it, how it might be measured, and some evidence*. Sefydliad Joseph Rowntree.

¹⁹ http://england.shelter.org.uk/_data/assets/pdf_file/0004/173398/AgainstTheOdds_full_report.pdf

Byd Gwaith

- Mae pobl ifanc sydd wedi'u magu mewn cartrefi incwm isel yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith, gweithio mewn swyddi sgiliau isel neu ddim sgiliau a chael cyflog gwael pan fyddant yn oedolion, o gymharu â'u cymheiriaid gwell eu byd.²⁰

Iechyd a Ffordd o Fyw

- Mae plant o'r grwpiau economaidd-gymdeithasol is bedair gwaith yn fwy tebygol o farw mewn damwain ac mae ganddynt bron ddwywaith y gyfradd salwch hirdymor, o gymharu â'r rhai sy'n byw mewn cartrefi incwm uchel.²¹

Mae'r wybodaeth uchod a'i ffynonellau wedi ymddangos yn *Trechu Tlodi Plant: Canllawiau ar gyfer Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf*, a gyhoeddwyd yn 2009 gan Lywodraeth Cymru ac sydd bellach wedi'i archifo yn <http://dera.ioe.ac.uk/10857/1/091009childpovertyguiden.pdf>

Adnoddau

Mae proffil meintiol manwl o dlodi plant yng Nghymru ar gael drwy'r ddolen isod, yn ystod y cyfnod adrodd mwyaf diweddar sydd ar gael. Mae'n cynnwys llinell amser o nifer o'r polisiau a'r gweithredoedd ar lefel Cymru a'r DU yn ystod yr un cyfnod.

<http://cymru.gov.uk/docs/caecd/research/130314-child-poverty-strategy-wales-baseline-indicators-en.pdf>

Darllenwch waith ymchwil diweddar ar effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yng Nghymru.

<http://cymru.gov.uk/topics/people-and-communities/welfare-reform-in-wales/?skip=1&lang=cy>

Mae Monitor Lles Plant a Phobl Ifanc Cymru a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar blant 0-18 oed. Mae'n crynhoi gwaith ymchwil o nifer o ffynonellau gwahanol ar ddangosyddion lles ar lefel Cymru gyfan ac yn monitro cynnydd cerrig milltir a thargedau tlodi plant Llywodraeth Cymru.

<http://cymru.gov.uk/statistics-and-research/children-young-peoples-wellbeing-monitor-wales/?skip=1&lang=cy>

²⁰ Renewal.net *Basic skills, literacy, numeracy: Overview*.

<http://www.renewal.net/Documents/RNET/Overview/Education/BasicSkillsLiteracy.doc>.

²¹ *Narrowing the Gap: the final report of the Fabian Commission on Life Chances and Child Poverty*. Llundain, Cymdeithas Fabian.

3. Mynd i'r Afael â'r Rhwystrau

Pam y dylai pobl ifanc gyfranogi?

Er mwyn datblygu diddordeb yn y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol, a'u hystyried fel dewis gyrfa posibl.

Er mwyn datblygu sgiliau bywyd a fydd yn eu helpu i ddatblygu eu diddordeb, eu hyder, eu hymgylltiad, eu huchelgais ac yn eu cymhwyso i ryngweithio ag eraill.

Barn pobl ifanc am y rhwystrau at y celfyddydau

Gofynnodd **FILMCLUB** (www.filmclub.org) i blant a phobl ifanc am y rhwystrau y maent yn eu hwynebu wrth geisio cael mynediad i'r celfyddydau yn yr ysgol ac yn eu cymunedau. Y 4 prif ffactor oedd **cost, gwybodaeth, trafndiaeth a lleoliad.**

Cost: Dylai projectau fod am ddim neu'n fforddiadwy. Dylai cyllidebau adlewyrchu hyn, felly mae blaengynllunio yn hollbwysig. Dylid darparu lluniaeth am ddim ac, os yn briodol, dylid darparu brecwast neu ginio er mwyn annog cyfranogiad cyson.

Gwybodaeth: Mae angen i ddeunyddiau marchnata ddefnyddio iaith a delweddau y bydd pobl ifanc yn gallu uniaethu â hwy ac yn cael eu denu ganddynt. Mae angen y cyfrwng cywir, yn arbennig y cyfryngau digidol. Gellir defnyddio sefydliadau partner ac eraill fel eiriolwyr ar gyfer eich gwaith os oes ganddynt fynediad i'ch grwpiau targed. Gall marchnata effeithiol hefyd helpu i fynd i'r afael ag unrhyw safbwyntiau negyddol am y gweithgarwch celfyddydol/diwylliannol rydych yn ei ddarparu, yn arbennig os yw'n rhywbeth y gallai pobl ifanc ei ddiystyru am nad yw'n 'cwl' neu am ei fod yn estron iddynt.

Trafndiaeth: Dylid defnyddio tacsis neu gerbydau hurio preifat er mwyn sicrhau bod plant yn ddiogel ac nad ydynt yn gorfod gadael projectau'n gynnar oherwydd diffyg trafndiaeth gyhoeddus.

Lleoliad: Mae angen i'r cyfranogwyr deimlo'n gyfforddus. Gallai fod yn fanteisiol trefnu digwyddiadau cychwynnol mewn lleoliadau cyfarwydd, cyn mynd ag aelodau'r gymuned i leoliadau eraill.

Pwysau gan gyfoedion: Dylai trefnwyr fod yn ymwybodol hefyd y gallai grŵp oedran rhai plant a phobl ifanc neu hyd yn oed eu rhieni ac aelodau eraill eu teulu eu cymell i beidio â chyfranogi mewn gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol, os nad ydynt hwy wedi arfer â gweithgareddau o'r fath. Efallai y bydd rhai'n ofni mynychu grŵp ar eu pen eu hunain.

Pobl a phobl ifanc ag anghenion a/neu gefndiroedd diwylliannol penodol: Gallai darparu ar gyfer plant ag anableddau neu blant o grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig olygu darparu cyfleusterau ac arbenigedd penodol.

Ystyriaethau Pellach

- Beth yw'r ffordd orau o fesur tlodi ac angen? Beth yw'r mesurau cywir?
- Sut y gallwch chi wneud i blant a phobl ifanc deimlo bod ganddynt ran i'w chwarae yn y celfyddydau maent yn eu gwyllo neu'n cyfranogi ynddynt?
- Sut y gallwch chi gynnwys plant a phobl ifanc yn y camau cynllunio/rhaglennu a marchnata; a ydym yn tanbriso gallu pobl ifanc i fod yn arloesol?
- Sut y gall oedolion osgoi gorfodi eu dewisiadau ar blant a phobl ifanc ac osgoi bod yn rhy ddidactig? A ydym yn gwrando ddigon?
- Sut y gallwn annog plant a phobl ifanc i adael eu lleoliadau cyfarwydd a mynd i leoliadau newydd lle y gallant fanteisio ar weithgareddau celfyddydol sy'n fwy prif ffrwd?
- Sut y gallwn fynd i'r afael â materion ac amgylchiadau anodd a darparu adloniant yr un pryd?!

Astudiaethau Achos wedi'u hariannu gan Gyngor Celfyddydau Cymru (CCC):

Comisiynodd **No Fit State Circus** waith ymchwil i gyd-fynd â'i phroject mawr diweddar yn yr awyr agored, Parklife, rhwng 2009 a 2011. Trwy ymarfer mewn parc bob dydd daeth yn amlwg fod pobl yn dechrau dangos diddordeb, gofyn cwestiynau am y broses a dechrau gwneud awgrymiadau am y gwaith. Llwyddodd hyn yn ei dro i'w cymell i fynd i weld y sioe. Gall gwneud y broses yn fwy agored yn y ffordd hon helpu i ddechrau cysylltu â phobl a'u hannog i fynychu. www.nofitstate.org/parklife

Yn Wrecsam yn 2012, defnyddiodd **Migrations** siop a oedd wedi cau ar gyfer perfformiad gan ddeuawdawns, a oedd yn cynnig nifer o berfformiadau bach gwahanol y gallai siopwyr eu 'harchebu'. Roedd yr ymateb gan y siopwyr a'r bobl a oedd yn mynd heibio, y cynigiwyd y dewis hwn iddynt, yn aruthrol. www.migrations.co/Store_Wrexham

Mae CCC yn cynnal y rhaglen **Splash**, sy'n cynorthwyo projectau artistig arloesol ar gyfer troseddwy ifanc a'r rhai sydd mewn perygl o droseddu yn ystod gwyliau'r haf. Mae CCC yn credu bod projectau cydweithredol rhwng sefydliadau celfyddydol a'r tîm troseddwy ifanc a chyfiawnder ieuenctid yn hollbwysig i lwyddiant Splash, sy'n cynnig dewis eang o weithgareddau artistig i bobl ifanc nad oes ganddynt fynediad neu'r hyder i fynychu gweithgareddau prif ffrwd. Gyda buddsoddiad cymharol isel o £80,000 y flwyddyn, mae Splash yn ymwneud â thua 700 o bobl ifanc bob blwyddyn.

www.celfcymru.org/arts-in-wales/engagement-and-participation/education-young-people/splash-cymru?diablo.lang=cym

Roedd **Cyrraedd y Nod** yn rhaglen o weithgareddau penodol ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant neu a oedd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, gyda'r nod o'u helpu i ail-ymgysylltu â byd addysg. I rai, mae hyn wedi golygu ennill cymwysterau ffurfiol ac wedi arwain at addysg bellach, ac i eraill, mae wedi arwain at ganlyniadau meddal megis gwella hunan-barch a'r gallu i weithio gydag oedolion a phobl ifanc eraill. Mae gwerthusiad annibynnol o'r gweithgarwch Cyrraedd y Nod, a gynhyrchwyd ar gyfer CCC ar gael yn www.celfcymru.org.uk/what-we-do/funding/cyrraedd-y-nod?diablo.lang=cym



Project Pontio'r Bwlch / Bridging the Gap Cyrraedd y Nod, a gafodd ei ariannu gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Hawlfraint: Cwmni'r Frân Wen.

Elfennau hollbwysig projectau llwyddiannus cyfranogi yn y celfyddydau

- Mae'n ymddangos mai partneriaethau yw hanfod nifer o raglenni llwyddiannus, lle mae darparwyr y celfyddydau yn gweithio ochr yn ochr â sefydliadau addysgol, Unedau Cyfeirio Disgyblion, grwpiau mamau ifanc, sefydliadau digartrefedd, timau/carchardai troseddwr ifanc, Byddin yr Iachawdwriaeth, Barnardo's, sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant ag anableddau penodol (e.e. nam ar eu golwg), a sefydliadau cyngor gyrfaoedd.
- Mae gan sefydliadau celfyddydol cymunedol lawer o brofiad o ddarparu profiadau cyfranogi arloesol o safon uchel, ac efallai y gallant hwyluso perfformiadau a sioeau gan bobl ifanc. Gall arddangos gwaith plant a phobl ifanc fod yn ffordd effeithiol o gydnabod, gwerthuso a dathlu'r hyn sydd wedi'i gyflawni.
- Mae'n rhaid diogelu safon; dull gweithredu sy'n mynnu gweithgareddau o safon uchel i blant, beth bynnag eu cefndir.
- Mae angen strategaethau ymadael, er mwyn sicrhau nad yw plant yn cael eu gadael yn ddiamcanr ar ôl cwblhau project cyfranogi yn y celfyddydau; gallai hyn gynnwys cynghorwyr /mentoriaid gyrfaoedd, a fydd yn gallu rhoi cyngor i gyfranogwyr am gyfleoedd dysgu eraill posibl.

Rhagor o wybodaeth:

www.cyngorcelfyddydaucymru.org.uk

www.celfcymru.org.uk/arts-in-wales/engagement-and-participation/addysg-a-phobl-ifainc?diablo.lang=cym

sally.lewis@cyngorcelfyddydaucymru.org.uk

4. Astudiaethau Achos

Astudiaeth Achos 1: FILMCLUB

Mae FILMCLUB yn elusen addysgol sy'n gweithio i gau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng plant breintiedig a phlant difreintiedig yn y DU. Mae'r elusen yn cynorthwyo ysgolion gwladol, gan ganolbwyntio'n benodol ar ardaloedd difreintiedig, ac yn cynnal clybiau ffilm wythnosol am ddim i blant 5-18 oed sy'n ysgogi eu dychymyg, sy'n meithrin eu datblygiad cymdeithasol a deallusol ac sy'n eu hamlygu i brofiadau newydd diddorol na fyddent wedi gallu eu mwynhau fel arall.

Beth sy'n digwydd?

Mae mwy na 7000 o glybiau ffilm ar hyd a lled y DU.

Mae'r ysgolion yn gallu dangos ffilmiau yn yr ysgolion a rhoddir mynediad i gatalog sy'n cynnwys miloedd o ffilmiau i'r aelodau a'r athrawon ddewis ohonynt.

Beth sy'n newid?

Drwy wyllo nifer o ffilmiau gwahanol yn rheolaidd, mae aelodau FILMCLUB yn elwa mewn nifer o ffyrdd gwahanol, gan gynnwys:

- Dysgu'n well
- Gwella eu sgiliau cyfathrebu
- Sgiliau cymdeithasol
- Cynyddu eu huchelgeisiau
- Dadansoddiad beirniadol
- Llythrennedd
- Llythrennedd ddigidol

Sut y caiff ei werthuso?

- Gwerthusiad annibynnol, yn seiliedig ar ymweliadau ag ysgolion ac ymatebion gan arweinwyr FILMCLUB, sef athrawon yn bennaf.
- Holiaduron a Grwpiau Ffocws.

Beth sy'n newid?

- Mae'n agor byd newydd o ddiwylliant i'r rhai na fyddai wedi gallu mwynhau profiadau diwylliannol fel arall
- Mae'n defnyddio technoleg newydd ac yn cynnig modelau ymgysylltu newydd
- Mae'r rhaglen am ddim i ysgolion sy'n cael eu hariannu gan y wladwriaeth, sy'n sicrhau nad yw cyllid yn rhwystr i gyfranogiad

- Mae'n bleserus a chofiadwy
- Mae FILMCLUB yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

support@filmclub.org

www.filmclub.org/

www.filmclub.org/whats-new/cymru

Astudiaeth Achos 2: Glyn-coch – Gwneud Gwahaniaeth drwy Bartneriaethau Cymunedol ac Addasu Rhaglenni

Mae ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yng Nghymru wedi gallu defnyddio projectau celfyddydol a diwylliannol er mwyn helpu i fynd i'r afael ag agweddau a dulliau gweithredu sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn. Glyn-coch, ger Pontypridd yn Rhondda Cynon Taf, yw un o'r cymunedau â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru, gyda phoblogaeth o lai na 3,000. Nid oedd gan dros hanner yr oedolion yng Nglyn-coch unrhyw gymwysterau adeg y Cyfrifiad diwethaf, a dim ond 12% ohonynt oedd â chymwysterau Lefel 3 neu uwch. Mae'r Uned Pobl a Gwaith, sy'n elusen sy'n gweithio gyda phobl ddifreintiedig gan ddefnyddio addysg a dysgu i'w helpu i addasu ac ymateb i anghenion y farchnad lafur, wedi defnyddio profiadau celfyddydol a diwylliannol i wneud newidiadau yng Nglyn-coch, gan weithio gydag oedolion a phlant. Mae'r gweithgarwch celfyddydol hwn wedi bod yn rhan o raglen ehangach o waith yr Uned Pobl a Gwaith gyda'r Bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf ac ysgolion lleol, i ddatblygu dealltwriaeth well o effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol ac i nodi ffyrdd ymarferol effeithiol o fynd i'r afael â hyn.

Beth ddigwyddodd?

Penderfynodd Partneriaeth Glyn-coch sefydlu rhaglen o weithgareddau a fyddai'n mynd i'r afael ag anghenion y grwpiau canlynol:

- Oedolion ('Cyfle i Weithio', sy'n annog oedolion i ddilyn cyrsiau i oedolion, cyrsiau cymunedol, addysg bellach ac addysg uwch, gyda chymorth gweithiwr achos)
- Pobl Ifanc (Mae '*Build It Glyn-coch*' yn darparu cyfleoedd addysg bellach a chyflogaeth mewn crefftiau amgylcheddol)
- Plant ('Cymunedau sy'n Canolbwyntio ar Ysgolion', sy'n ceisio cynorthwyo plant a'u teulu oedd drwy gydol gyrfa ysgol y plentyn).

Nid yw'r Uned Pobl a Gwaith yn credu mai tlodi yn ddo'i hun sy'n achosi cyrhaeddiad addysgol isel. Yn hytrach, mae'n credu bod tri amod craidd i lwyddiant ym maes addysg, ac mae angen i o leiaf ddau o'r rhain fod yn bresennol os yw'r plentyn am lwyddo:

- Cyfleoedd o safon uchel
- Mae gan bobl ifanc y gallu a'r awydd i fanteisio ar gyfleoedd
- Cymorth i ddatblygu gallu'r bobl ifanc, ar y gorau, neu o leiaf er mwyn gwneud iawn am fylchau mewn gallu.

Mae dull gweithredu'r Uned Pobl a Gwaith yn seiliedig ar y farn, pe byddai dim ond un o'r amodau hyn yn bresennol, sy'n digwydd yn aml mewn cymunedau sydd wedi'u heffeithio gan dlodi, yna mae angen dull gweithredu hirdymor aml-ddimensiwn. Ystyrir bod seilio dulliau gweithredu ar gymunedau yn hollbwysig os ydym eisiau newid agweddau, disgwyliadau ac ymddygiad pobl

- Mae projectau, yn amrywio o rapio i gelf gyhoeddus, i ddawns a gwyliau, yn ogystal â mynd i weld perfformiadau gan gynllun 'Noson Allan' Cyngor Celfyddydau Cymru, wedi helpu i gyfrannu at ostyngiad nodedig mewn cyfraddau troseddu lleol
- Mae projectau wedi'u cynllunio i helpu cyfranogwyr i oresgyn rhwystrau seicolegol megis diffyg hyder i deithio y tu allan i'r gymuned leol. Cyflawnwyd hyn drwy drefnu i oedolion deithio ar y trê'n fynd i weld perfformiad theatr yng Nghaerdydd
- Agwedd Glyn-coch yw, 'Pam nid fi' yn hytrach na 'Nid i mi'
- Mae hwyluso'r gallu i bobl fanteisio ar brofiadau celfyddydol o safon uchel yn golygu bod yr Uned Pobl a Gwaith yn ceisio canfod cyllid heb unrhyw gyfyngiadau cysylltiedig: er enghraifft, gall rhai cyllidwyr ei gwneud yn ofynnol i'r holl arian gael ei wario yng Nghymru, yn hytrach nag ar deithiau i'r theatr a chyfleoedd celfyddydol eraill mewn lleoliadau eraill.

Er mwyn mesur cynnydd, penderfynodd yr Uned Pobl a Gwaith bod angen iddi allu nodi pwynt penodol, sef y foment lle byddai nifer fawr o drigolion Glyn-coch yn ymrwymo i ddysgu a dathlu llwyddiant: roedd angen hyn er mwyn ysgogi newid gwirioneddol i gyflawniadau'r plant. Un o dasgau'r bartneriaeth oedd cyflawni 'canlyniadau cyflym' a fyddai'n denu'r trigolion ac yn eu hysgogi i gymryd rhan. Mae gwneud i bobl deimlo'n dda am y lle maent yn byw drwy weithgareddau, megis celf gyhoeddus i wella'r amgylchedd adeiledig, wedi bod yn hollbwysig.

Roedd 'addasu' rhaglenni, sef defnyddio rhaglenni cyllid prif ffrwd i ganolbwyntio ar ac addasu i'r anghenion a nodwyd gan bobl leol yn yr ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, yn destun trafodaethau cynnar rhwng trigolion ac asiantaethau lleol. Penderfynodd Partneriaeth Glyn-coch na fyddai'n ceisio sefydlu darpariaeth ddysgu newydd ond yn hytrach, byddai'n ceisio canfod ffyrdd o hwyluso mynediad, ac ymgysylltiad cyson â chyfleoedd prif ffrwd. Cafwyd cymorth ariannol pellach gan Sefydliadau Rank, Paul Hamlyn ac Esmée Fairbairn, a oedd yn galluogi i gyllid Cymunedau yn Gyntaf gael ei ddefnyddio at ddibenion eraill.

Beth newidiodd?

Cofnodwyd newidiadau trawiadol:

- Lefelau presenoldeb gwell ymhlith disgyblion Blwyddyn Saith
- Cymorth gwaith cartref yn cael ei ddefnyddio am y tro cyntaf
- Mwy o bobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol
- Pobl ifanc sydd ag enw drwg oherwydd eu hymddygiad heriol wedi pennu nodau personol
- Clwstwr o ddisgyblion sydd wedi gadael yr ysgol nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant wedi dechrau dilyn rhaglen i ddysgu crefft
- Am y tro cyntaf mewn blynyddoedd, pobl ifanc yn dangos diddordeb mewn mynd i'r brifysgol

- Nodwyd cynnydd yn nifer yr oedolion sy'n dysgu hefyd.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

james.hall@peopleandworkunit.org.uk

www.peopleandworkunit.org.uk/Welsh/Index.html

Astudiaeth Achos 3: Glasgow Life – Cynnwys Plant a Phobl Ifanc yng Ngweithgareddau Amgueddfeydd. Gwrando ar Farn Pobl Ifanc

Amgueddfeydd Glasgow yw'r gwasanaeth amgueddfeydd dinesig mwyaf yn y DU ac mae'n cynnwys naw lleoliad, gan gynnwys Oriol ac Amgueddfa Gelf Kelvingrove. Mae holl waith Amgueddfeydd Glasgow yn cael ei wneud mewn partneriaeth, e.e. gyda sefydliadau dysgu cymunedol, gwasanaethau cymdeithasol, GIG yr Alban ac Education Scotland.

Paneli Pobl Ifanc yn eu Harddegau a Phlant Iau



Roedd Amgueddfeydd Glasgow wedi nodi bod angen cynyddol i ddenu cynulleidfaoedd ysgolion a phobl ifanc yn eu harddegau, a darparu ar eu cyfer. Arweiniodd hynny at greu Paneli Pobl Ifanc yn eu Harddegau a Phlant Iau Amgueddfeydd Glasgow, gan ddenu aelodau o dair ysgol leol a oedd yn cynrychioli nifer o gefndiroedd ac amgylchiadau economaidd-gymdeithasol gwahanol. Cylch gwaith y paneli yw sicrhau bod yr amrywiaeth ehangaf o bobl yn gallu mwynhau, dysgu a chael eu hysbrydoli gan eu hymweliad ag amgueddfa. Rhan o amcan Amgueddfeydd Glasgow yw newid agweddau ymhlith plant a phobl ifanc, a oedd wedi datgan bod amgueddfeydd yn ddiflas neu'n rhy ffurfiol. Mae hyn wedi golygu bod staff yr amgueddfeydd wedi ceisio goresgyn eu hofnau y bydd yr arteffactau yn cael eu difrodi drwy weithgareddau megis paentio yn yr orielau cyhoeddus.

Beth sy'n digwydd?

Mae staff yr amgueddfeydd yn ymgynghori ag aelodau'r paneli yn ystod camau datblygu a chynllunio cynnwys projectau, gan gynnwys datblygu dehongliad digidol.

Nid yw pob un o'r awgrymiadau yn cael eu gweithredu, ond mae'r amgueddfeydd yn credu mai eu prif nod yw ymgysylltu â phobl ifanc drwy ddeialog.

Beth sy'n newid?

Cofnodwyd effaith aruthrol ar hunan-barch a hyder aelodau'r paneli. Mae adborth gan aelodau'r paneli wedi datgan bod y gwaith wedi llwyddo i newid eu canfyddiad o amgueddfeydd, ac wedi eu helpu gyda dewisiadau academaidd yn yr ysgol.

**I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:**

Susie.ironside@glasgowlife.org.uk

www.glasgowlife.org.uk

Astudiaeth Achos 4: Crochan a Ffwrnais – Cyrraedd Cynulleidfaedd Newydd a Newid Agweddau drwy'r Celfyddydau a Threftadaeth

Roedd Crochan a Ffwrnais yn broject partneriaeth y celfyddydau a threftadaeth a oedd yn cael ei arwain gan Cadw, gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, a Chyngor Celfyddydau Cymru. Derbyniodd gyllid gan Legacy Trust UK, ac roedd yn rhan o 'Grym y Fflam', rhaglen a gynlluniwyd i ysbrydoli creadigrwydd ar hyd a lled y DU, a chreu effaith barhaol yn dilyn Gemau Olympaidd a Pharalympaidd Llundain 2012.

Beth ddigwyddodd?

Daeth Crochan a Ffwrnais ag artistiaid a chymunedau ynghyd, a'u gwahodd i ganfod ffyrdd newydd o gysylltu ac ymateb i amgylchedd hanesyddol Cymru. Un amcan oedd gweithio gyda chymunedau heriol. Bu mwy na 180 o artistiaid a 26,000 o bobl ifanc yn datblygu projectau celf cymunedol: 65 o osodiadau celf, 17 o berfformiadau byw i gynulleidfa o bron i 16,000. Cerfluniau, cymwysiadau cerddoriaeth a straeon digidol oedd rhai o'r ffurfiau ar gelfyddyd a ymchwiliwyd iddynt. Dywedodd Huw Lewis AC, y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth ar y pryd, bod y project wedi llwyddo i ddod â chymunedau at ei gilydd ac wedi hwyluso proses o ddysgu am y dreftadaeth leol a'i hystyr.



Beth newidiodd?

Dywedodd athrawon, partneriaid cyflawni a gweithwyr ieuenctid bod barn y bobl ifanc am eu treftadaeth leol wedi newid; roedd y bobl ifanc yn ymddangos yn fwy hamddenol, yn llai ofnus o henebion ac yn mwynhau ymdeimlad uwch o berchenogaeth. Roedd yr adborth a dderbyniwyd gan y plant ysgol yn awgrymu eu bod wedi elwa drwy ddysgu am ddiwylliant a mythau Cymru drwy eu gwaith gydag artistiaid. Roeddent wedi dysgu sgiliau newydd ac wedi profi syniadau a oedd wedi tanio eu diddordeb yn y celfyddydau a dysgu am hanes eu hardaloedd lleol. Nodwyd bod gan y bobl ifanc hefyd fwy o hyder o ganlyniad. Drwy weithdai a oedd yn cael eu harwain gan artistiaid, rhoddwyd blaenoriaeth i grwpiau cymunedol na fyddent fel arfer yn cael cyfle i gynhyrchu gwaith ar gyfer safleoedd treftadaeth mawr, gan gynnwys pobl ag anableddau.

Yn dilyn Crochan a Ffwrnais, lansiwyd *Fframwaith y Celfyddydau a Threftadaeth* ym mis Medi 2012, a oedd yn pwysleisio ymrwymiad Cadw i weithio gyda'r celfyddydau. Mae Cadw yn credu y gall gweithio ar y cyd gynyddu gwerthfawrogiad, dealltwriaeth a mwynhad o'r safleoedd dan ei ofal ac, yn arbennig, cysylltu â chynulleidfaoedd mwy a gwahanol. Bwriedir i'r Fframwaith alluogi Cadw i atgyfnerthu gwaith a wnaed drwy Crochan a Ffwrnais.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

susan.mason@cymru.gsi.gov.uk (Susan yw Pennaeth Dysgu Gydol Oes Cadw)

<http://cadw.cymru.gov.uk/learning/?jsessionid=C12F2F3181746079AFD608DAD087E2EB?skip=1&lang=cy>

Astudiaeth Achos 5: Project Bling Amgueddfa Cymru – Cyfuno'r Celfyddydau ac Amgueddfeydd er mwyn darparu Cyfleoedd Newydd i Bobl Ifanc

Roedd **Bling!** yn un o fentrau'r amgueddfa a gynlluniwyd i dargedu pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed i ennyn eu diddordeb yn y casgliadau a chynnig sgiliau ymarferol iddynt a fyddai'n ategu dysgu galwedigaethol a chymunedol. Cynhaliwyd y fenter yn ystod 2011 a 2012.

Roedd y project yn cyfuno'r celfyddydau ac amgueddfeydd mewn ffordd arloesol er mwyn darparu cyfleoedd newydd i bobl ifanc. Roedd yn cynnig profiadau a oedd yn galluogi cyfranogwyr i feithrin sgiliau wrth iddynt ymchwilio i faterion yn ymwneud â'u diwylliant a'u treftadaeth eu hunain a rhai pobl eraill.

Y bobl ifanc eu hunain oedd yn gyfrifol am ddewis y testun Bling, a chafodd y project ei ariannu gan Gronfa Canlyniadau Cymunedau yn Gyntaf ac Amgueddfa Cymru. Ffrwyth llafur y project hwn oedd amrywiaeth anhygoel o waith – gan gynnwys celf gysniadol, graffiti a chelf ddigidol, yn ogystal â gemwaith, cerfluniau ac adnoddau aml-gyfrwng – pob un ohonynt yn cyflwyno safbwyntiau a syniadau'r bobl ifanc.

Beth ddigwyddodd?

Derbyniodd mwy nag 20 grŵp o bobl ifanc (nad oedd y mwyafrif ohonynt yn ymweld ag amgueddfeydd), wahoddiad gan Amgueddfa Cymru i weithio gydag 17 o artistiaid proffesiynol a gweithwyr proffesiynol yr Amgueddfa, i greu eu 'Bling' eu hunain. Bu mwy na 500 o bobl ifanc yn cymryd rhan mewn sesiynau a gweithdai galw heibio, a bu bron i 300 o bobl ifanc yn ymgysylltu â'r project llawn.

Cafodd pob grŵp ei baru ag artist a fu'n gweithio gyda hwy dros gyfnod o 3 mis ar gyfartaledd.

Yn ystod y cyfnod hwn, cafodd y grwpiau gyfleoedd i:

- ymweld â'u hamgueddfa genedlaethol leol ac Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd i weld y casgliadau
- gweithio gydag artist a'r casgliadau dros gyfnod parhaus yn eu cymunedau eu hunain
- curadu eu harddangosfa eu hunain yn eu hamgueddfa genedlaethol agosaf a chymryd rhan mewn arddangosfa grŵp yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd rhwng mis Mehefin a mis Medi 2012.

Roedd pob arddangosfa yn dangos y gwrthrychau Bling gorau, ochr yn ochr â dehongliad a oedd wedi'i ysgrifennu gan y bobl ifanc. Roedd yr arddangosiadau yn gwneud cysylltiadau rhwng gwaith celf/bling y bobl ifanc a'r gwrthrychau a oedd wedi'u hysbrydoli. Cynhaliwyd digwyddiad arddangos/dathlu preifat ar ddiwedd pob project..

Beth newidiodd?

- Roedd y bobl ifanc wedi rhoi cynnig ar rywbeth newydd ac wedi cywain gwybodaeth am drin deunyddiau a chyflawni syniadau o'r cam cynllunio i'r cam cynhyrchu – a oedd yn cefnogi dysgu cymunedol a galwedigaethol
- Mwy o hunanhyder
- Cafodd y cyfranogwyr gyfle i achredu eu gwaith drwy'r cynllun ASDAN (cafodd un project gynnig credydau Prifysgol y Plant hefyd)
- Roedd y bobl ifanc yn teimlo'n fwy cartrefol yn ymweld ag amgueddfeydd
- Roedd y projectau yn darparu tystiolaeth gref o ddatblygiad – mewn nifer o ffyrdd gwahanol.

'Doeddwn i ddim yn sylweddoli pa mor ddiddorol yw amgueddfeydd nes i mi ddod yma. Cawson ni deithiau tywys gan bobl a sgysiau am wrthrychau diddorol – rydw i wedi newid fy meddwl – nid llfydd i 'geeks' yn unig yw'r rhain, a bydda i'n sicr o ddychwelyd.'

Charlene, un o gyfranogwr Bling! o Broject Ieuencid Sydic a fu'n siarad yn y gynhadledd Gweddnewid Bywydau Plant.

Sut y cafodd ei werthuso?

Cafodd y project ei werthuso drwy grwpiau ffocws, holiaduron papur a ffilmiau. Defnyddiwyd hyn i gofnodi deialog cyfranogwyr a oedd wedi'u hannog i drafod beth y gellir ei wneud i sicrhau bod amgueddfeydd, orielau a safleoedd treftadaeth yn fwy hygyrch i bobl ifanc.

Pam y bu'n llwyddiannus?

Bu'r tîm yn gweithio mewn partneriaeth â nifer o sefydliadau gwahanol 'ar lawr gwlad' ym mhob ardal. Cafodd Bling ei dargedu ar sail daearyddiaeth (ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf) a gwybodaeth gweithwyr ieuencid, a fu'n helpu i ddewis yr unigolion hynny a fyddai'n fwyaf tebygol o elwa.

- Cynhaliwyd y rhan fwyaf o'r projectau dros gyfnod estynedig o amser. Roeddent yn cynnwys gwaith yn y cymunedau, yn ogystal ag ymweliadau y tu allan i'r cymunedau hynny
- Y bobl ifanc oedd yn penderfynu beth roeddent am ei wneud, ac roedd yr artistiaid yn hwyluso hyn, gan ddarparu gwybodaeth arbenigol a sgiliau i alluogi'r bobl ifanc i wireddu eu syniadau
- Roedd gwrando ar leisiau pobl ifanc yn elfen hollbwysig o'r project
- Roedd y project yn ceisio diddymu rhwystrau at gyfranogiad, megis trafndiaeth
- Cafodd gwaith y project ei ddathlu mewn arddangosiadau o safon uchel yn yr amgueddfeydd cenedlaethol, a roddodd statws i'r gwaith ym marn y bobl ifanc, eu cyfoedion a'u teuluoedd.

Beth yw'r gwaddol?

- Mae'r grwpiau a fu'n cymryd rhan yn sylweddoli bod casgliadau amgueddfeydd yn berthnasol i'w bywydau a'u treftadaeth
- Mae'r project wedi helpu'r Amgueddfa i atgyfnerthu ystod ac ansawdd ei darpariaeth i bobl ifanc. Mae fforymau pobl ifanc yn cael eu sefydlu ym mhob Amgueddfa, er mwyn sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn cael eu clywed, ac i ddylanwadu ar amcanion strategol Amgueddfa Cymru
- Defnyddiwyd canfyddiadau'r project i gyflwyno'r achos dros ariannu rhagor o waith i annog cyfranogiad pobl ifanc.

"Byddwn i'n sicr yn hoffi cymryd rhan mewn project fel hwn eto, roedd yn brofiad gwych ac rydw i wedi datblygu nifer o sgiliau newydd. Rydw i wedi elwa mewn cymaint o ffyrdd gwahanol, mae'n anhygoel, mae fy ngwaith yn cael ei arddangos yma, mae wedi bod yn y castell ac rydw i wedi datblygu sgiliau celf er mwyn i mi allu gwneud mwy o hynny. Mae angen i ni ledaenu'r neges i sefydliadau ieuenctid eraill oherwydd mae'r project yma wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i bawb sydd wedi cymryd rhan... wnewn ni fyth anghofio'r cyfle hwn."

Mia, 13, un o gyfranogwr Bling! o broject ieuenctid Sydic a siaradwr yn y gynhadledd Gweddnewid Bywydau Plant.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

sarah.greenhalgh@amgueddfacymru.ac.uk

www.amgueddfacymru.ac.uk

www.blingamgueddfa.co.uk



5. Pecyn Gweithredu

Mae'r adran hon yn eich cyfeirio at sefydliadau a all roi cymorth ymarferol ar gyfer gweithgareddau plant a phobl ifanc, gan gynnwys cyllid mewn rhai achosion. Cynlluniwyd pob elfen o'r pecyn gweithredu i ddarparu themâu allweddol, cysylltiadau, adnoddau a chysylltiadau i'ch helpu i ddatblygu eich gwaith yn y maes hwn. Rydym wedi ceisio cynnwys nifer o gysylltiadau a dolenni defnyddiol i chi roi cynnig arnynt.

Mae'r pecyn wedi'i rannu'n adrannau fel a ganlyn:

- 5.1 Targedu ymdrechion: cynlluniwyd yr adran hon i'ch helpu i gyrraedd y bobl rydych eisiau gweithio â hwy
- 5.2 Gweithio gydag ysgolion: cyngor Estyn ar weithio gyda dysgwyr difreintiedig; beth y gall sefydliadau'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth ei gynnig; a gweithio gyda theuluoedd
- 5.3 Partneriaethau: sefydlu gwaith partneriaeth effeithiol
- 5.4 Galluogi pobl ifanc i leisio eu barn: gan gynnwys cyngor ar sefydlu fforwm ieuenctid
- 5.5 Gweithio gyda chynulleidfaoedd Cymraeg eu hiaith
- 5.6 Gwerthuso: a yw'r sector diwylliannol yn talu sylw digonol i waith gwerthuso ac ar beth y dylai'r ymdrechion ganolbwyntio?
- 5.7 Eiriolaeth ar gyfer y celfyddydau: dweud wrth bobl sut y gall y celfyddydau helpu i fynd i'r afael â thlodi plant
- 5.8 Cyllid

Rydym hefyd yn darparu manylion gwefannau nifer o sefydliadau eraill a all roi cyngor i chi neu eich cyfeirio at bobl eraill a fydd yn gallu eich helpu. Er ein bod wedi gwirio'r gwefannau hyn, nid yw pob un ohonynt yn cael ei diweddarau'n rheolaidd, ac mae rhai ohonynt yn cael eu cynnal gan elusennau bychain, felly efallai y bydd yn rhaid i chi chwilio eich hun os na fyddwch yn llwyddo i ganfod yr hyn sydd ei angen arnoch y tro cyntaf.

Adran 5.1: Targeddu ymdrechion

Themâu allweddol

Mae targeddu ymdrechion yn galluogi sefydliadau i gyflawni canlyniadau gwell drwy weithio gyda phartneriaid a chymunedau, yn hytrach nag ar eu pen eu hunain.

Bydd sefydliadau'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth sy'n ymrwymedig i fynd i'r afael â thlodi plant yn gwneud penderfyniadau gwahanol am dargeddu, yn dibynnu ar nifer o ffactorau gwahanol. Mae'r rhain yn cynnwys maint a chylch gwaith y sefydliad, eu lleoliad, mynediad at blant a phobl ifanc, sgiliau ac arbenigedd, argaeledd cyllid a lle maent hwy'n credu y mae'r angen mwyaf.

Yn y gorffennol, mae rhai sefydliadau wedi canolbwyntio ar feini prawf megis ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, ac wedi eithrio grwpiau eraill sy'n byw mewn tlodi. Gall y wybodaeth 'Grwpiau sy'n wynebu'r risg fwyaf' ar dudalennau 11-13 yr adnodd hwn eich helpu i fyfyrion mwy ar y ffordd y gallwch helpu i fynd i'r afael â'r agenda tlodi plant – yn arbennig mewn partneriaethau â sefydliadau eraill sy'n arbenigo mewn gweithio gyda'r grwpiau hyn.

Ystyriaethau pellach:

- A oes maes gwaith na fyddai neb yn ymdrin ag ef pe na byddech chi'n gwneud hynny?
- Lle y gallwch chi wneud y gwahaniaeth mwyaf?
- Pa sefydliadau yw eich partneriaid posibl mwyaf amlwg? Allwch chi dargeddu cynulleidfaoedd sy'n gyffredin i chi?

Adnoddau ar gyfer targeddu

Gellir defnyddio'r ddau adnodd neu'r mesurau canlynol i nodi a thargeddu gwaith – data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) a data Prydau Ysgol am Ddim.

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2011 yw'r mesur amddifadedd swyddogol ar gyfer ardaloedd bychain yng Nghymru (poblogaethau sydd yr un peth ar y cyfan ym mhob un o'r ardaloedd bychain hyn – tua 1500.) Datblygwyd y Mynegai fel dull i nodi a deall amddifadedd yng Nghymru, er mwyn i gyllid, polisi a rhaglenni allu canolbwyntio'n effeithiol ar y cymunedau â'r amddifadedd mwyaf.

Mae'r mynegai yn mesur yn erbyn 7 math o amddifadedd neu 'feysydd' – cyflogaeth, incwm, addysg, iechyd, mynediad daearyddol at wasanaethau, diogelwch cymunedol a thai.

Ar y cyfan, y Cymoedd a'r awdurdodau lleol trefol sy'n cael y sgorau uchaf ar y MALIC. Yn gyffredinol, yr awdurdod lleol â'r amddifadedd mwyaf yn ôl MALIC yw Merthyr Tudful, yna Blaenau Gwent a Rhondda Cynon Taf.

Er bod awdurdodau lleol y cymoedd ac awdurdodau lleol trefol yn dueddol o gael y sgorau uchaf ar draws y gwahanol fathau o amddifadedd, awdurdodau lleol gwledig sydd â'r sgorau uchaf yn nhermau mynediad at wasanaethau.

Defnyddiwyd y MALIC diweddaraf fel sail i'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf (gweler adran 2 am ragor o fanylion). (Bydd rhai ardaloedd sydd wedi bod yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn y gorffennol yn gymwys i gael cymorth gwahanol, er enghraifft, oherwydd eu statws gwledig).

Mae crynodeb o MALIC, a gwybodaeth am sut i'w ddefnyddio, ar gael yn <http://cymru.gov.uk/statistics-and-research/?skip=1&lang=cy>

Data Prydau Ysgol am Ddim

Mae data ar bwy sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim a chanran y disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim wedi cael ei ddefnyddio ers blynyddoedd fel ffordd o dargedu cymorth i ddisgyblion mewn ysgolion penodol (ac i ddisgyblion unigol hefyd – er bod ysgolion yn ofalus i beidio â nodi/stigmatiddio disgyblion, a hynny'n ddealladwy).

Mae data Llywodraeth Cymru yn dangos bod perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn is na'u cyfoedion nad ydynt yn gymwys i'w cael, ym mhob cyfnod allweddol, a bod y bwch hwnnw yn cynyddu wrth i ddisgyblion fynd yn hŷn.

Canran gyfartalog y disgyblion mewn ysgolion ar hyd a lled Cymru sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim yw **17%** (Sefydliad Joseph Rowntree, 2013). Rhwng 2006 a 2009, bu Llywodraeth Cymru yn targedu cyllid 'Rhagori', mewn ysgolion lle'r oedd **20%** o'r disgyblion yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim. Efallai y bydd sefydliadau'r celfyddydau/diwylliant/treftadaeth sy'n awyddus i nodi a/neu dargedu ysgolion gyda chyfran uchel o blant a phobl iau tlotach, yn dymuno canolbwyntio ar ysgolion gyda chanrannau uwch na'r cyfartaledd o blant sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim. (Dylech gadw mewn cof y gall y ffigur cyfartalog newid dros amser, o ganlyniad i ffactorau megis newidiadau i fudd-daliadau'r wladwriaeth a chymhwysedd i gael Prydau Ysgol am Ddim).

Fodd bynnag, mae rhai anawsterau sy'n gysylltiedig â'r dangosydd Prydau Ysgol am Ddim:

- Nid yw pob plentyn sy'n byw mewn tlodi wedi cael hawl i gael Prydau Ysgol am Ddim. (Nid oedd plant sy'n byw mewn cartrefi sy'n gweithio ac sydd ar incwm isel yn gymwys fel arfer i gael Prydau Ysgol am Ddim. Mae rhieni sy'n gweithio 16 awr neu fwy yr wythnos neu 24 awr i gyplau, yn colli eu hawl – waeth pa mor isel yw eu cyflog)
- Nid yw pob teulu sydd â hawl i gael Prydau Ysgol am Ddim yn eu hawlio (er y gallai ysgolion gael cymorth ychwanegol, yn seiliedig ar nifer y plant sydd wedi'u cofrestru i gael Prydau Ysgol am Ddim)

- Mewn ysgolion sy'n gwasanaethu ardaloedd daearyddol mawr, yn arbennig ysgolion gwledig, efallai y bydd pocedi ynysig cuddiedig. Hynny yw, mae presenoldeb teuluoedd mwy cefnog yn nalgylch yr ysgol, yn lleihau canran y myfyrwyr sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim yn yr ysgol
- Nawr, oherwydd bod Llywodraeth San Steffan yn disodli'r budd-daliadau presennol, ac yn cyflwyno'r Credyd Cynhwysol newydd (2013-17), bydd yn rhaid i'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim newid. Yn y tymor byr, bydd plentyn yng Nghymru, sydd â rhiant a fydd yn derbyn y credyd cynhwysol ar neu ar ôl 1 Medi 2013, yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim. Yn y tymor hwy, mae meini prawf cymhwysedd newydd yn cael eu datblygu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim.

Er bod heriau'n gysylltiedig â Phrydau Ysgol am Ddim, ymddengys y bydd cymhwysedd yn parhau i gael ei ddefnyddio fel y mesur (procsi) gorau ar gyfer incwm isel mewn ystadegau angen y maes addysg. O ganlyniad, mae'n debygol y bydd nifer o sefydliadau yn parhau i ddefnyddio Prydau Ysgol am Ddim i dargedu ac i ddangos eu bod wedi targedu plant mewn amgylchiadau economaidd difreintiedig. Fodd bynnag, o ystyried y materion sy'n gysylltiedig â Phrydau Ysgol am Ddim, efallai y bydd sefydliadau yn dewis defnyddio dangosyddion eraill, yn lle, neu yn ogystal â'r cymhwysedd Prydau Ysgol am Ddim.

Yn 2010-11, roedd gan bron i 85,000 o blant yng Nghymru hawl i gael prydau ysgol am ddim.

I gael gwybodaeth am ffigurau canran Prydau Ysgol am Ddim ar gyfer ysgol benodol, ewch i <http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym>

Mae'r wefan yn rhoi ffigurau yn seiliedig ar gyfartaledd 3 blynedd. Mae'n galluogi defnyddwyr i gymharu gwybodaeth rhwng ysgolion ym mhob awdurdod ac felly mae'n bosibl y gall helpu i dargedu.

Adran 5.2: Gweithio gydag ysgolion

Mae gan nifer o sefydliadau'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth raglenni gwaith cryf eisoes, sydd wedi'u datblygu gydag ysgolion ac ar gyfer ysgolion, ond efallai nad ydynt wedi ystyried y ffordd mae eu gweithgareddau eisoes yn cefnogi'r agenda ar drechu tlodi plant a/neu sydd â'r potensial i wneud mwy o'r gwaith hwn. Daw'r dyfyniad canlynol gan Estyn, y corff sy'n gyfrifol am arolygu ysgolion yng Nghymru. Mae'n rhoi crynodeb defnyddiol o'r gwaith ymchwil ar ddisgyblion difreintiedig ac, wrth wneud hynny, gallai awgrymu ffyrdd y gall ein sefydliadau wneud mwy i gynorthwyo ysgolion i fynd i'r afael ag anfantais.

Beth ydym yn ei wybod am ddysgwyr difreintiedig ?

Mae Monitor Lles Cymru yn adrodd bod plant a phobl ifanc sy'n cael eu magu mewn tlodi yn agored i niwed mewn nifer o ffyrdd gwahanol. Mae mwy o berygl y bydd eu cyrhaeddiad addysgol yn wael, mae eu canlyniadau iechyd yn fwy tebygol o fod yn waelach, a'u medrau a'u dyheadau'n is. Mae hefyd yn fwy tebygol y byddant yn cael cyflog isel, yn ddi-waith ac yn dibynnu ar les pan fyddant yn oedolion.

Arfer Effeithiol wrth Fynd i'r Afael â Thlodi ac Anfantais mewn Ysgolion – Estyn, Tachwedd 2012: www.estyn.gov.uk/cymraeg/docViewer-w/260005.2/Arfer%20effeithiol%20wrth%20fynd%20i%20%80%99r%20afael%20%C3%A2%20thlodi%20ac%20anfantais%20mewn%20ysgolion%20-%20Tachwedd%202012/

Sut y gallwn helpu i fynd i'r afael ag anfantais?

Mewn cyhoeddiad cynharach (*Mynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion: cydweithio â'r gymuned a gwasanaethau eraill*, Estyn, Gorffennaf 2011), dywedodd Estyn y gallai ysgolion wella cyflawniad dysgwyr difreintiedig mewn nifer o ffyrdd gwahanol, gan gynnwys yr agweddau canlynol (y mae sefydliadau'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth weithiau'n ymgymryd â phob un ohonynt):

- Cynyddu dyheadau
- Dysgu y tu allan i oriau'r ysgol
- Datblygu ffocws cymunedol
- Gweithio gyda'r gymuned leol
- Gweithio gyda rhieni
- Gweithio gydag asiantaethau eraill
- Cefnogi'r cyfnod pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

Mae dysgwyr difreintiedig yn llai tebygol na'u cyfoedion mwy breintiedig o gymryd rhan mewn ystod eang o brofiadau diwylliannol, chwaraeon a phrofiadau dysgu eraill. Felly, mae cyfranogiad mewn gweithgareddau dysgu y tu allan i oriau ysgol yn arbennig o bwysig i ddysgwyr difreintiedig.

Mae ymarferwyr yn sectorau'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth yn datgan bod amrywiad sylweddol rhwng ysgolion o ran nifer y disgyblion sy'n manteisio ar y cyfleoedd sy'n cael eu cynnig. Mae rhai ysgolion yn ymateb yn frwdfrydig. Mae ysgolion eraill yn credu (yn anghywir) bod gweithgareddau'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth yn tynnu eu sylw oddi ar yr ymdrech i wella rhifedd a llythrennedd a thorri'r cyswllt rhwng tlodi a thangyflawni – ac maent yn amharod i ymgysylltu â'r ddarpariaeth gelfyddydol a diwylliannol sydd ar gael neu ni allant wneud hynny.

Mae Estyn yn ein hatgoffa **sut a pham** y gall ein sefydliadau wneud gwahaniaeth i gyflawniad myfyrwyr. Gall gweithgareddau roi hwb i hyder dysgwyr, gallant ddatblygu eu gallu i ymgysylltu'n gadarnhaol ag oedolion a'u cyfoedion, a gwella eu hagwedd at ddysgu. Fodd bynnag, mae Estyn hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd gwerthuso, targedu a gwaith cynllunio effeithiol gan ysgolion, er mwyn codi safonau a gwella lles.

Mae ysgolion effeithiol mewn amgylchiadau heriol... yn gwneud ymdrechion da i ddarparu profiadau cyfoethog y mae dysgwyr mwy breintiedig yn eu cymryd yn ganiataol – maent yn cynnig dewislen amrywiol o glybiau, gweithgareddau a gwibdeithiau diwylliannol ac addysgol.

Mae dysgwyr difreintiedig yn llai tebygol na'u cyfoedion o elwa ar ystod eang o brofiadau diwylliannol, chwaraeon a phrofiadau dysgu eraill.

Mae rhai ysgolion yn cynnig gweithgareddau y tu allan i'r diwrnod ysgol **sy'n galluogi dysgwyr i ennill cymwysterau.**

Mae llawer o'r ysgolion llwyddiannus hyn yn gwahodd ymwelwyr amrywiol i'r ysgol, yn cynnwys arlunwyr, beirdd ac awduron, i wella profiadau dysgu'r dysgwyr. Mae'r profiadau hyn yn gwella hunan-barch dysgwyr trwy ddatblygu eu gallu i fynegi eu syniadau a'u teimladau.

Arfer Effeithiol wrth Fynd i'r Afael â Thlodi ac Anfantais mewn Ysgolion, Estyn, Tachwedd 2012.

<http://www.estyn.gov.uk/cymraeg/docViewer-w/260005.2/Arfer%20effeithiol%20wrth%20fynd%20i'r%20afael%20â%20thlodi%20ac%20anfantais%20mewn%20ysgolion%20-%20Tachwedd%202012/?navmap=30,163>

Pa fathau o weithgareddau y mae sefydliadau'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth yn eu cynnig?

Mae sefydliadau'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth yn gweithio gydag ysgolion mewn nifer o ffyrdd gwahanol gan gynnwys:

- Darparu gweithgareddau arbrofol
- Trefnu mynediad i ymarferwyr artistig a/neu berfformiadau proffesiynol, cynrychiadau a sioeau sydd wedi'u hanelu at gynulleidfaoedd iau
- Cynnig ffyrdd i bobl ifanc berfformio ac arddangos eu gwaith mewn lleoliadau proffesiynol
- Trefnu hyfforddiant a/neu brofiad gwaith
- Darparu ysgolion haf a gwyliau i bobl ifanc

- Datblygu a/neu ddarparu mynediad i adnoddau dysgu
- Cynnig mentor, lleoliadau gwaith, cyngor ar yrfaeodd.

Mae gwneud yn siŵr bod pob plentyn yn cael yr addysg a'r gefnogaeth orau sydd eu hangen arno i lwyddo yn yr ysgol neu'r coleg, yn cael effaith fawr ar ba mor barod yw pobl ifanc i fyw bywyd oedolyn a lleihau rhagor o dlodi. Plant mewn tlodi ac sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig yw'r plant sydd leiaf tebygol o wneud yn dda yn yr ysgol, ac maent yn llai tebygol o fynd ymlaen i Addysg Uwch.

Mae teulu/cymuned gefnogol, a mynediad at amrywiaeth o gyfleusterau a chyngor, yn gallu gwneud gwahaniaeth mawr i wella canlyniadau i blant yn yr ysgol. Mae gan sefydliadau'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth rôl bwysig yn gweithio gydag ysgolion cynradd ac uwchradd, i gynorthwyo plant a theuluoedd yn eu hardaloedd lleol i ymgysylltu'n llawn mewn addysg. P'un a ydych yn gweithio ym maes cerddoriaeth; drama; dawns, ffilm a'r cyfryngau digidol; celfyddydau gweledol a dylunio; llenyddiaeth, ysgrifennu creadigol neu adrodd straeon, a allwch:

- Greu cysylltiadau (ehangach a chryfach) gyda darparwyr addysg lleol, er enghraifft colegau, ysgolion cynradd ac uwchradd?
- Gweithio gydag ysgolion lleol i ddatblygu dulliau i gofnodi llwyddiannau pobl ifanc y tu allan i'w diwrnod ysgol, e.e. Achrediad drwy waith ieuenctid, gwaith gwirfoddol a Phrifysgol y Plant?
- Ymgysylltu â Chanolfan Blant Integredig neu ddarparwr tebyg yn eich ardal chi?
- Gweithio gyda'r Awdurdod Lleol i gefnogi a/neu ddatblygu darpariaeth Dysgu fel Teulu?
- Gweithio gydag ysgolion lleol i ddatblygu neu gefnogi clybiau y tu allan i oriau ysgol?
- Ymgysylltu ag Ysgolion Bro i sicrhau bod pob person ifanc yn y gymuned yn gallu elwa ar y ddarpariaeth sydd ar gael?
- Cydweithio â gweithwyr ieuenctid yn ardaloedd Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf, i wella datblygiad sgiliau personol a chymdeithasol pobl ifanc? (Mae'r berthynas sydd gan weithwyr cymunedol a gweithwyr ieuenctid gyda phlant a phobl ifanc sy'n anodd eu cyrraedd, a'u teulu oedd, yn cynnig mwy o gyfleoedd i oresgyn y rhwystrau, gwirioneddol neu ymddangosiadol, rhwng yr ysgol, y disgybl a'r teulu).

Cefnogi gwaith ysgolion drwy ganolbwyntio ar deuluoedd

Yn ôl Estyn, mae **Rhaglenni Dysgu fel Teulu**, yn arbennig llythrennedd a rhifedd, yn gallu gwella cyflawniad addysgol plant a rhieni, (*Arfer Dda o Ran Cynnwys Rhieni*, Estyn, 2009). Mae'r cynlluniau dysgu fel teulu hyn sy'n cael eu cynnal gan Awdurdodau Lleol, ac sy'n cael eu cynnal mewn ysgolion ac sy'n para am dymor, yn canolbwyntio ar wella sgiliau sylfaenol rhieni a'u plant (ochr yn ochr a chyda'i gilydd) a gallant fod yn ddull effeithiol o dorri'r cylch o dangyflawni drwy wella sgiliau llythrennedd a rhifedd yn y gymuned. Efallai y bydd gan ymarferwyr dysgu fel teulu ddiddordeb mewn cyflwyno'r rhieni a'r plant i ddarparwyr celfyddydau/diwylliant/treftadaeth lleol, fel ffordd o annog pobl i barhau i ymchwilio i gyfleoedd dysgu ar ddiwedd y rhaglen Dysgu fel Teulu ffurfiol, drwy gyfleoedd anffurfiol dysgu fel teulu yn y gymuned.

Yn fwy cyffredinol, dengys gwaith ymchwil y gall helpu rhieni i ddatblygu eu sgiliau a'u hyder mewn

ffyrdd sy'n eu galluogi i gefnogi addysg eu merched a'u meibion, wneud gwahaniaeth gwirioneddol. Mae rhai sefydliadau'r celfyddydau/diwylliant/treftadaeth yn ceisio gwneud hyn drwy raglenni rheolaidd o ddigwyddiadau i deuluoedd a mentrau eraill a gynlluniwyd i gynnwys rhieni mewn gweithgareddau gyda'u plant, gan gynnwys llwybrau teuluol i annog y cenedlaethau i ddarganfod ac ymchwilio gyda'i gilydd. Mae sefydliadau eraill yn cynnig cyfleoedd i deuluoedd gymryd rhan drwy berfformiadau, arddangosfeydd ac arddangosiadau ac yn y blaen, lle y gwahoddir teuluoedd i ddathlu project a chyflawniadau eu plant. Gall y mentrau hyn helpu rhieni i ymwneud yn fwy ag addysg eu plant mewn cyd-destun anfygythiol, a gallai helpu i gyrraedd rhieni sydd wedi cael profiad negyddol o'r ysgol neu rieni nad oes ganddynt yr hyder i greu perthynas gref gydag ysgol eu plentyn/plant.

Profwyd bod galluogi rhieni i ddangos diddordeb yng ngwaith eu plant a'u cefnogi gyda'u gwaith, (yn arbennig drwy ddarllen rheolaidd gyda'i gilydd, er enghraifft), yn fwy effeithiol na mentrau a gynlluniwyd i godi uchelgeisiau rhieni ar gyfer eu plant.

Adnoddau a chymorth

Swyddogion Datblygu'r Celfyddydau

Mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, os nad pob un, Swyddogion Datblygu'r Celfyddydau sydd, yn ogystal â'u cyfrifoldebau eraill, yn gweithredu fel eiriolwyr a broceriaid i'r celfyddydau yng ngwasanaethau addysg eu hawdurdod. Mae nifer ohonynt yn aelodau'r sefydliad Arts Development UK. <http://artsdevelopmentuk.org/>

Gallwch gysylltu â'ch Awdurdod Lleol i gael manylion cyswllt eu Swyddog(ion) Datblygu'r Celfyddydau. Mae'n bosibl y gall y Swyddogion Datblygu:

- Ddarparu cyngor ac arweiniad i ysgolion, hwyluso cyfleoedd celfyddydol i ddysgwyr drwy gysylltu ag artistiaid a sefydliadau celfyddydol
- Cydgysylltu projectau cwricwlaidd ac allgyrsiol mewn ysgolion
- Darparu cymorth uniongyrchol i ysgolion drwy ddyddiau datblygiad proffesiynol i athrawon (e.e. ar wella sgiliau llythrennedd drwy'r celfyddydau, cefnogi dysgwyr galluog a thalentog) yn ogystal â helpu ysgolion i godi arian i gefnogi projectau celfyddydol
- Darparu cyngor ar yrfaeodd, a chysylltu'r ysgolion gyda'r diwydiannau creadigol
- Rhoi cyngor ar y dilyniant o'r ysgol i Addysg Bellach/Uwch ar gyfer gyrfaoedd yn y diwydiant creadigol.

Rhwydweithiau Dysgu Teulu a Rhyng-genhedlaeth

Wedi'u trefnu gan NIACE Dysgu Cymru, mae'r rhwydweithiau hyn yn uno nifer o sefydliadau sy'n hyrwyddo ac yn cefnogi dysgu rhyng-genhedlaeth, ac maent yn cynnwys oedolion mewn addysg plant ac yn galluogi oedolion i edrych ar eu sgiliau dysgu eu hunain, a datblygu'r sgiliau hyn.

www.niacedc.org.uk/cy/dysgu-teulu-rhyng-genhedlaeth-0

Astudiaeth Achos: Cefnogi gwaith Cymunedau yn Gyntaf mewn ysgolion

Mae CaST Cymru (ContinYou Cymru yn flaenorol) yn gweithio gydag unigolion a grwpiau o Glystyrau Cymunedau yn Gyntaf i ddatblygu ac ehangu partneriaethau gydag ysgolion, er mwyn cynyddu dyheadau, cyflawniadau a chyrhaeddiad plant a phobl ifanc a'u teuluoedd, yn arbennig y rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig.

Mae CaST Cymru yn helpu Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf i wneud gwahaniaeth drwy:

- Weithdai ar weithio'n well gydag ysgolion, datblygu projectau dysgu teulu
- Cynorthwyo teuluoedd i ymgysylltu ag addysg eu plant
- Datblygu a hwyluso gwaith cynllunio aml-asiantaeth er mwyn mynd i'r afael â blaenoriaethau addysg cenedlaethol a lleol
- Hyrwyddo dysgu cymunedol a dysgu gydol oes.

Mae CaST Cymru hefyd yn gweithio gydag awdurdodau lleol, consortia a nifer o bartneriaid statudol a'r trydydd sector. Gallwch gysylltu â Gwasanaeth Cymorth Cymunedau yn Gyntaf ar 0800 587 8898 neu e-bostiwch info@castcymru.org.uk.

Astudiaeth Achos: Allan â Ni!– dull gweithredu cydweithredol ar gyfer diwallu anghenion lleol mewn 12 ardal Glwstwr Cymunedau yn Gyntaf

Mae Allan â Ni! yn rhaglen arloesol sy'n ceisio ysbrydoli, ysgogi a chefnogi mwy na 2,500 o bobl o'r cymunedau mwyaf difreintiedig i fwynhau'r awyr agored, profi'r manteision a gwerthfawrogi a gofalu am yr amgylchedd naturiol.

Mae'r project yn dod â nifer o ymarferwyr ynghyd sy'n gweithio yn y sectorau datblygu cymunedau, gwasanaethau ieuencid, gwella iechyd, yr amgylchedd a'r awyr agored, i weithio gyda'i gilydd a 12 o glystyrau penodol Cymunedau yn Gyntaf.

Drwy weithgareddau hamdden, chwarae, gwirfoddoli, dysgu yn yr awyr agored/datblygu sgiliau a theithio, mae'r rhaglen yn ceisio datblygu sgiliau cymdeithasol, personol a throsglwyddadwy mwy na 800 o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, a fydd yn eu galluogi i ail-ymuno â byd addysg, cael mynediad i hyfforddiant a chymryd rhan mewn cyfleoedd cyflogaeth. Mae'r rhaglen yn ceisio ymgysylltu â mwy na 1,600 o bobl sy'n anweithgar yn gorfforol oherwydd salwch hirdymor, anabled neu eu ffordd o fyw, a'u cynorthwyo i ddatblygu mwy yn gorfforol.

www.tyfupobl.org.uk/wp-content/uploads/2013/05/Come-Outside-Information-Sheet-April-2013.pdf

Adran 5.3: Partneriaethau

I sefydliadau yn y sector diwylliannol, mae manteision amlwg i weithio gyda grwpiau lleol yn eich cymunedau, wrth gynllunio a gweithredu projectau. Bydd pobl sydd â gwybodaeth leol arbenigol, fel yr **Uned Pobl a Gwaith** (gweler Astudiaeth Achos 2), Unedau Cyfeirio Disgyblion, elusennau a thimau'r sector cyhoeddus sy'n gweithio gyda phobl ddi-gartref, mamau ifanc a throseddwyr ifanc mewn sefyllfa dda i drafod beth allai fod yn ddefnyddiol. Gallwch hefyd ofyn am gyngor yr adrannau gwasanaethau cymdeithasol os ydych yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc sydd angen cymorth penodol, er enghraifft, gofalwr i fod ar gael pan fyddant yn cyfranogi.

Drwy grynhoi adnoddau, sgiliau, arbenigedd a gwybodaeth, mae'n bosibl y gallwch weithio mewn ffyrdd mwy uchelgeisiol a chynaliadwy.

I sefydliadau nad ydynt fel arfer yn ystyried bod ganddynt y sgiliau a'r arbenigedd ym maes tlodi plant, neu os nad ydynt yn siŵr lle i ddechrau, gallai'r cwestiynau isod helpu i ysgogi trafodaeth am bartneriaid posibl.

Cwestiynau allweddol i bartneriaid

Mewn cyfnod o ddirwasgiad a thoriadau...

PA sefydliadau eraill y gallwn weithio gyda hwy, a SUT y gallwn weithio gyda hwy... i gynorthwyo plant a'u teuluoedd er mwyn sicrhau nad yw plant a phobl ifanc o dan anfantais oherwydd tlodi?

Sut y gallwn ni, gyda'n gilydd, sicrhau bod ein pobl ifanc yn cael addysg dda, yn cael profiadau a chyfleoedd amrywiol, bod ganddynt ddyheadau mawr, iechyd meddwl da a sgiliau cymdeithasol gwych, er mwyn iddynt allu mynd ymlaen i gyflawni eu potensial yn llawn?

Ar wahân i sefydliadau plant a mentrau gwrth-dlodi penodol, gallai partneriaid posibl gynnwys, er enghraifft:

- Clystyrau a Grwpiau Cymunedol Cymunedau yn Gyntaf
- Swyddogion Datblygu'r Celfyddydau Awdurdodau Lleol
- Sefydliadau diwylliannol a threftadaeth eraill e.e. Llenyddiaeth Cymru
- Dechrau'n Deg
- Rhaglenni Dysgu Teulu
- Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd ac Archifau
- Yr Urdd
- Sefydliadau anabledd
- Sefydliadau ffydd
- Sefydliadau ar gyfer pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig
- Colegau Addysg Bellach
- Sefydliadau gwirfoddol

- Grwpiau cymorth Gofalwyr Ifanc
- Sefydliadau ieuenctid
- Cydgyssylltwyr Plant sy'n derbyn Gofal (Awdurdod Lleol).

Wrth ystyried y posibilrwydd o gefnogi grwpiau sy'n cael anhawster i ddefnyddio gwasanaethau diwylliannol a gwasanaethau eraill, mae'n werth ystyried datblygu rhaglenni a gweithgareddau y gellir eu rhannu ar gyfer cyfranogwyr, yn ogystal â rhannu sgiliau, gwybodaeth, arbenigedd staff a chyfleoedd hyfforddiant.

Sefydlu gwaith partneriaeth effeithiol

Rhoddodd cydlynnydd **Engage Cymru**, Angela Rogers, y cyngor canlynol ar weithio mewn partneriaeth, wrth ymateb i 'Young Adult Carers Engaging with Galleries', project cydweithredol yr oedd wedi'i drefnu:

Bydd gan bob sefydliad neu unigolion eu diddordebau, nodau a'u blaenoriaethau eu hunain i'w hystyried, a bydd angen iddynt gydbwysu amser ac ymrwymiad i'r project gydag ymrwymadau eraill... Gellir cynnal partneriaethau effeithiol drwy dreulio amser ar y cychwyn yn:

- *Trafod a chytuno ar nodau cyffredin ar gyfer y project*
- *Cytuno ar y briff ar gyfer pob partner ar y dechrau, y gall pawb gyfeirio ato*
- *Deall sut mae'r project yn ceisio cefnogi'r nodau a'r blaenoriaethau sefydliadol ac unigol*
- *Disgrifio canlyniad disgwylidig y project yn glir, a nodi mesurau llwyddiant wrth gyflawni'r canlyniadau*
- *Nodi disgwyliadau a chyfrifoldebau gweithredu yn glir*
- *Sefydlu lefel briodol o gontract...*
- *Ymchwilio i'r dulliau gorau o gasglu gwerthusiadau a sicrhau bod pob partner wedi'i hyfforddi i wneud hynny...*
- *Adolygu'r cynnydd wrth geisio cyflawni'r canlyniadau, dathlu cyflawniadau a mynd i'r afael â diffygion.*

www.engage.org/young-carers.aspx

Adnoddau

Mae'r **Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant** yn gynghrair sy'n canolbwyntio ar ddileu tlodi plant yng Nghymru, ac mae'n cael ei gydlynw a'i reoli gan **Plant yng Nghymru**. Mae aelodaeth y Rhwydwaith yn cynyddu, ac mae'n cynnwys croestoriad eang o asiantaethau yng Nghymru (aelodau grwpiau llywio yn cynnwys **Barnardo's Cymru**, **Achub y Plant Cymru**, **NSPCC Cymru**, **Shelter Cymru**, **Ymddiriedolaeth Frank Buttle** a **Fairbridge Cymru**). Mae Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru yn un o'r arsylwyr.

www.actionforchildren.org.uk/cymraeg

www.barnardos.org.uk

www.cpag.org.uk (Grŵp Gweithredu Tlodi Plant)

www.complantcymru.org.uk

www.plantynghymru.org.uk/index.html

www.disabilityartscymru.co.uk/cy/

www.dileutlodiplantcymru.org.uk/areasofwork/childpoverty/endchildpovertynetwork/index.html

www.fairbridge.org.uk/wales (Mae Fairbridge yn rhan o sefydliad Ymddiriedolaeth y Tywysog erbyn hyn)

www.princes-trust.org.uk

www.nspcc.org.uk

www.ruralyoutheurope.com

www.savethechildren.org.uk/about-us/where-we-work/united-kingdom/cymru

www.sheltercymru.org.uk/?lang=cy

Amgueddfeydd ac Oriolau yn Rhannu Gwybodaeth

Mae Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Oriolau Cymru wedi lansio cynllun sy'n galluogi i bawb sy'n gweithio yn Amgueddfeydd Cymru a chyda'r amgueddfeydd hyn, i rannu eu harbenigedd a'u gwybodaeth.

Gallwch gysylltu â chydweithwyr ym mha bynnag ffordd y dymunwch. Eich dewis chi fydd parhau â'ch trafodaeth mewn fforwm cyhoeddus neu ymysg eich gilydd:

Os ydych yn defnyddio Facebook, yn broffesiynol neu'n bersonol, ewch i www.facebook.com/pages/WelshMuseumsFed/413738748669257 a hoffi'r dudalen.

Os ydych yn defnyddio Linked In, ymunwch â 'Welsh museums peer support network' www.linkedin.com/groups/Welsh-museums-peer-support-network-4498163?home=&gid=4498163&trk=anet_ug_hm

Adran 5.4: Galluogi pobl ifanc i leisio eu barn

Credwn ei bod yn hollbwysig siarad â'n plant a'n pobl ifanc am y projectau rydym yn eu cynllunio gyda hwy ac ar eu cyfer hwy (nid dim ond y rhai sydd eisoes yn cyfrannu yn y rhain ond hefyd y rhai a allai gyfrannu yn y rhain). Mae hyn yn unol ag Erthygl 12 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, sy'n datgan y dylai plant allu lleisio eu barn ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae amgueddfeydd Glasgow Life wedi cyflawni hyn yn llwyddiannus (gweler Astudiaeth Achos 3).

Dylid gwneud ymdrech benodol i gynnwys grwpiau sy'n fwy agored i dlodi yn y broses hon, a darparu cymorth penodol iddynt os bydd angen. Nid yw'r ffaith bod plentyn neu grŵp yn 'anodd ei gyrraedd' yn ein hesgusodi rhag gofyn eu barn.

Pam mae hyn mor bwysig? Dylai pob plentyn allu lleisio ei farn a chyfrannu at benderfyniadau sy'n effeithio ar ei fywyd. Mae hyn wedi bod yn digwydd mewn ysgolion yng Nghymru ers 2005, pan basiwyd deddfwriaeth a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i bob ysgol benodi cynghorau plant a phobl ifanc sy'n cynrychioli safbwyntiau'r disgyblion. Fel mae sefydliad Eurochild yn cydnabod, dylai plant a phobl ifanc wneud cyfraniad gweithredol, oherwydd mae ganddynt hawl i ddadlau dros eu hawliau eu hunain, a dylent allu cymryd rhan oherwydd mae ganddynt wybodaeth a syniadau a fydd o fudd i bawb.

www.eurochild.org/fileadmin/ThematicPriorities/Participation/Eurochild/ValuingChildren_sPotential.pdf.

I'ch helpu i gynnwys plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau, a allwch:

- Ddatblygu fforwm ieuencid os bydd hynny'n briodol, a sicrhau bod cyfansoddiad y grŵp yn cynrychioli cyfansoddiad y bobl ifanc yn y gymuned?
- Defnyddio strwythurau Cymunedau yn Gyntaf i ymgynghori â phlant a phobl ifanc er mwyn sicrhau eu cyfranogiad mewn ymgynghoriadau ehangach?
- Sicrhau bod safbwyntiau a gwybodaeth am y gwasanaeth wedi'u hadlewyrchu'n glir yn eich cylchlythyrau a'ch gwefannau?
- Cefnogi ymgysylltiad gyda mwy o grwpiau anodd eu cyrraedd?
- Sicrhau datblygiad yn y gymuned sy'n adlewyrchu gofynion diwylliannol gwahanol y boblogaeth leol?
- Defnyddio Rhwydwaith Gweithwyr Cyfranogiad Cymru a'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogi?
- Defnyddio gwaith swyddfa Comisiynydd Plant Cymru i hybu hawliau a lles plant?

Mae'r canllaw *How to develop a Youth Forum in your museum: A toolkit of ideas* yn cynnwys cyngor ymarferol y gallai nifer o sefydliadau'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth, yn ogystal ag amgueddfeydd, ei ddefnyddio. Gweler hefyd: www.claireadler.co.uk

<http://abcofworkingwithschools.files.wordpress.com/2010/12/youthforumtoolkit1.pdf>

Mae llawer o adnoddau defnyddiol ar gael ar **wefan Comisiynydd Plant Cymru** www.complant-cymru.org.uk/, gan gynnwys hawliau plant o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a gwybodaeth am gynllun Llysgenhadon Gwych. Mae'r Comisiynydd wedi bod yn gweithio gyda Kids in Museums <http://kidsinmuseums.org.uk/> a Llywodraeth Cymru i wneud amgueddfeydd yn lleoedd sy'n fwy ystyriol o blant a phobl ifanc. Un ffordd y mae ef ac amgueddfeydd yng Nghymru wedi bod yn creu mwy o gyfleoedd cyfranogi ac ymgysylltu yw drwy'r fenter Diwrnod Meddiannu Amgueddfeydd. Ar y diwrnod hwn, rhoddir rolau ystyrion i blant, ac maent yn gweithio ochr yn ochr â'r staff a'r gwirfoddolwyr i gymryd rhan ym mywyd yr amgueddfa – math o brofiad gwaith grŵp. Er bod y fenter hon wedi'i datblygu mewn amgueddfeydd, gallai weithio mewn sefydliadau celfyddydol a threftadaeth eraill a gallai helpu i wella dyheadau plant, yn ogystal â darparu cyfle i ymgynghori ac ymgysylltu. Mae rhai amgueddfeydd wedi defnyddio'r Diwrnod Meddiannu Amgueddfeydd i ddatblygu arddangosfeydd gyda'u hymwelwyr ifanc. Mae sefydliadau eraill wedi 'cyflogi' pobl ifanc i weithio ar fentrau datblygu cynulleidfaoedd, neu farchnata i'w cyfoedion.

Mewn rhai achosion, mae pobl ifanc wedi gweithredu fel ymchwilwyr, yn ymchwilio i bwnc diddorol ac wedi cyflwyno'r canlyniadau mewn ffordd ddiddorol. Mae'r adroddiad *Small Voice: Big Story: Reducing the Impact of Poverty on the Educational Achievement of Young People in Wales*, a gynhaliwyd gan Achub y Plant a'r Uned Gyfranogi yn enghraifft ysbrydoledig o'r dull hwn, sy'n cyflwyno canfyddiadau a chyngor defnyddiol ar gynnal project ymchwil.

www.savethechildren.org.uk/sites/default/files/images/small_voice_report_english.pdf. Mae sefydliadau eraill wedi cynnwys pobl ifanc yn y gwaith o gyflwyno canfyddiadau eu gwaith ymchwil drwy weithgareddau creadigol, megis gwneud ffilmiau, yn hytrach na dim ond trwy eu hargraffu.

Gall **Y Ddraig Ffyni** <http://www.funkydragon.org/cy/> eich cynorthwyo drwy raeadru gwybodaeth i bobl ifanc o lefel genedlaethol i lefel leol yng Nghymru. Mae hwn yn sefydliad blaenllaw yng Nghymru, sef cynulliad cenedlaethol plant a phobl ifanc, sy'n gallu helpu drwy raeadru gwybodaeth o lefel genedlaethol i lefel leol. Mae gwefan Y Ddraig Ffyni yn darparu dolenni i 22 fforwm ieuenctid yn ardaloedd awdurdodau lleol Cymru. Mae gan Y Ddraig Ffyni ddolenni i sefydliadau eraill gan gynnwys Cyngor Ieuenctid Prydain a sefydliadau ieuenctid rhyngwladol.

Mae **Cyngor Ieuenctid Prydain** yn cyhoeddi llawer iawn o ddeunyddiau ar ei wefan, deunydd sydd wedi'i gynllunio i 'rymuso pobl ifanc ar draws y DU i leisio eu barn a chael eu clywed'. Ceir manylion pob fforwm ieuenctid awdurdodau lleol yn y DU ar y wefan: www.byc.org.uk

Mae nifer o ganllawiau 'How 2' ar gael ar wefan Cyngor Ieuenctid Prydain, yn cynnwys canllaw ar sut i ddileu'r rhwystrau mae pobl ifanc anabl yn eu hwynebu wrth geisio cymryd rhan mewn gweithgareddau. Mae'r canllaw hwn yn cynnwys y cynghorion y dylech roi cyfle i bawb leisio eu barn; ni ddylech wneud unrhyw ragdybiaethau, a dylech siarad â phobl ifanc am eu hanghenion a'u dymuniadau ar ddechrau eich project. Mae'r rhain yn siŵr o fod yn gynghorion defnyddiol ar gyfer cyfathrebu gydag unrhyw blentyn neu berson ifanc rydych yn gweithio â hwy!

Ym mis Gorffennaf 2012, lansiodd Plant yng Nghymru y **Porth Cyfranogiad** www.participation-hub.org.uk/PorthCyfranogiad, gyda chyllid Llywodraeth Cymru. Mae'r porth hwn yn helpu plant a phobl ifanc i gael cymorth a chael lleisio eu barn ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Fe'i

cynlluniwyd i ddarparu mynediad cyfleus i'r hyn y mae'r person ifanc, neu ymarferydd, yn chwilio amdano.

Mae deunyddiau arweiniad amrywiol ar gael hefyd ar **wefan Rhwydwaith Gweithwyr Cyfranogiad Cymru** www.participationworkerswales.org.uk. Mae'r Uned Cyfranogiad wedi datblygu adnoddau ar ran Consortiwm Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc Cymru, gan ddefnyddio cyllid yr UE o Gronfa Gymdeithasol Ewrop, er enghraifft:

Cafodd y **poster Safonau Cyfranogiad** ei ddatblygu fel ffordd o helpu i arddangos a chyfleu'r safonau cyfranogiad yng Nghymru i ymarferwyr, plant a phobl ifanc.

Mae'r **ffilm Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol** yn helpu plant a phobl ifanc i ddeall sut mae'r safonau yn berthnasol iddynt hwy.

Mae'r **Canllawiau Tanio!** yn gyfres o ganllawiau arfer da sydd wedi'u datblygu gan yr Uned Cyfranogiad. Mae'r canllawiau yn trafod pynciau penodol ac yn cynnwys cyngor ar ddulliau posibl ac enghreifftiau o waith gan ymarferwyr ar hyd a lled Cymru.

Mae'r **wefan Porth Cyfranogiad** yn adnodd cyfeirio, sy'n dangos i blant a phobl ifanc y sefydliadau a'r adnoddau sy'n gallu darparu gwybodaeth a help iddynt wneud penderfyniadau www.participationhub.org.uk/PorthCyfranogiad.

Adnoddau eraill

www.plantynghymru.org.uk/index.html

Grwpiau ieuencid unigol yng Nghymru yn ôl ardal awdurdod lleol:

www.llaisdisgyblioncymru.org.uk/cymraeg/uwchradd/cymerwch-ran/fforymau-leuencid-lleol/

'*Participation – Spice it Up!*' Adnodd i bob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc:

www.childcomwales.org.uk/uploads/publications/219.pdf

'*Children's Rights: Spice 'em up!*' Llyfr sy'n darparu deunyddiau hyfforddi creadigol er mwyn gwneud addysg hawliau plant yn fwy o hwyl:

www.savethechildren.org.uk/resources/online-library/childrens-rights-spice-em-up

Mae '*Participation – Young Spice*' yn edrych ar y ffyrdd gorau o ymgynghori â phlant o dan 11 oed:

www.childcomwales.org.uk/uploads/publications/219.pdf

Chwarae Cymru – Chwarae a'r blynyddoedd cynnar. Taflen wybodaeth sy'n ymchwilio i chwarae a'i bwysigrwydd i ddatblygiad plant o enedigaeth hyd saith mlwydd oed:

www.chwaraecymru.org.uk/login/uploaded/documents/INFORMATION%20SHEETS/chwarae%20ar%20blynyddoedd%20cynnar.pdf

Ap

'Ap Ein Hawliau – Cymru/Our Rights – Wales' – ap dwyieithog newydd ar gyfer dyfeisiadau symudol, sy'n hyrwyddo hawliau plant, sydd ar gael ar iPad, iPhone ac iPod touch, ac sydd wedi'i greu gan bobl ifanc. Mae'n darparu gwybodaeth am erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP):

<https://itunes.apple.com/us/app/our-rights-wales/id634918433?ls=1&mt=8>

Adran 5.5: Gweithio gyda chynulleidfaedd Cymraeg eu hiaith

Mae Llywodraeth Cymru wedi creu polisiau a strategaethau i hyrwyddo a hwyluso'r iaith Gymraeg mewn bywyd bob dydd. Mae hyn yn golygu y dylai pob math o waith fod ar gael yn ddwyieithog, yn arbennig pan fydd plant a phobl ifanc yn siarad Cymraeg. Gall y sefydliadau isod roi help, cyngor a chymorth i chi

Adnoddau

Gall rhwydwaith **Menter Iaith** www.mentrau-iaith.com ddarparu cysylltiadau a rhagor o gyngor am broffiliau iaith, yn ogystal â hyrwyddo darpariaeth Gymraeg i gynulleidfaedd lleol sy'n siarad Cymraeg yn eu hardaloedd hwy. Mae Menter Iaith yn sefydliad lleol sy'n cefnogi grwpiau ar lefel sir i ddatblygu a chynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg. Mae rhai ohonynt yn cynnig gweithgareddau celf i blant a phobl ifanc yn ystod gwyliau'r haf ac ar ôl yr ysgol.

Mae **Comisiynydd y Gymraeg** (www.comisiynyddygybraeg.org a www.cyg-wlc.org), y crewyd deddfwriaeth ar ei gyfer yn 2011, yn gorff annibynnol sy'n gweithio i sefydlu hawliau siaradwyr Cymraeg. Rhan o gyfrifoldebau swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yw hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg; a gweithio i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, drwy roi dyletswyddau ar rai sefydliadau i gydymffurfio â'r safonau sy'n gysylltiedig â'r iaith Gymraeg. Mae'r egwyddor y dylai pobl yng Nghymru allu dewis byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg yn sail i waith y Comisiwn.

Sefydlwyd **Urdd Gobaith Cymru** www.urdd.org fwy na 90 mlynedd yn ôl, i roi cyfle i blant a phobl ifanc ddysgu a chymdeithasu yn y Gymraeg. Mae 50,000 o blant a phobl ifanc yn aelodau o'r Urdd heddiw. Mae un o bob tri o siaradwyr Cymraeg 8-18 oed yn aelodau o'r Urdd. Eisteddfod yr Urdd, sy'n cael ei chynnal bob blwyddyn, yw un o'r gwyliau ieuentid mwyaf yn y byd. Mae gan yr Urdd 300 o ganghennau lleol yng Nghymru, yn ogystal â nifer o ganolfannau preswyl, gan gynnwys un yng Nghanolfan Mileniwm Cymru ym Mae Caerdydd. Mae'r Urdd yn cynhyrchu cylchgronau i ddysgwyr Cymraeg ac i siaradwyr Cymraeg rhugl.

Mae gwefan **Term Cymru** www.termcymru.cymru.gov.uk/ ar gael i'ch helpu gyda therminoleg ar gyfer ysgrifennu yn Gymraeg, teitlau swyddi cydnabyddedig yng Nghymru a theitlau Cymraeg cyhoeddiadau y Llywodraeth. Lluniwyd y wefan fel cronfa ddata terminoleg Gwasanaeth Cyfieithu Llywodraeth Cymru.

Mae **Cyngor Ieuenctid Cymru** wedi cyhoeddi cyflwyniad defnyddiol i waith ieuenctid dwyieithog, o'r enw www.iaith.eu/uploads/agor_dau_ddrws__ionawr_2010.pdf.

Mae **Llywodraeth Cymru** (<http://cymru.gov.uk/topics/welshlanguage/?skip=1&lang=cy>) yn disgrifio ei chynlluniau i ehangu mynediad at ddiwylliant, treftadaeth a chymorth, yn cynnwys gwaith ymchwil, ystadegau, cyhoeddiadau, grantiau i hyrwyddo'r Gymraeg a chynlluniau i wella technoleg, adloniant ac adnoddau er mwyn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru www.cyfieithwycymru.org.uk yw cymdeithas broffesiynol genedlaethol cyfieithwyr a chyfieithu ar y pryd Cymraeg/Saesneg. Ei nod yw ceisio sicrhau safonau cyfieithu proffesiynol mewn gwaith cyfieithu a dehongli Cymraeg/Saesneg.

Mae **Mudiad Meithrin** www.mym.co.uk yn arbenigo yn narpariaeth y blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Ei nod yw rhoi cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru elwa ar wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ffederasiwn ar gyfer pobl ifanc mewn ardaloedd gwledig yw **Clybiau Ffermwyr Ifanc** www.cffi-cymru.org.uk/. Mae'r Clybiau yn darparu gweithgareddau addysgol, diwylliannol a chymdeithasol i bobl ifanc rhwng 13 a 26 oed.

Llyfryddiaeth **Canolfan Cynllunio'r Iaith** o ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg. www.iaith.eu/adnoddau.php?lang=cy&

Adran 5.6: Gwerthuso

Gall gwerthuso fod yn weithgarwch heriol i rai ohonom yn y sector diwylliannol, yn arbennig am fod rhai'n credu y gall gymryd blynyddoedd i effaith amlygiad i'r celfyddydau a threftadaeth ddod i'r amlwg, sy'n ei gwneud yn fwy priodol i ni gynnal astudiaethau tymor hwy nad ydynt yn cyd-fynd â natur tymor byr cylchoedd cynllunio a chyllido. Hefyd, mae'n bosibl na fydd cyllid ar gael i gynnal astudiaeth hydredol o'r math hwn. O ganlyniad, mae'n bosibl bod rhai sefydliadau diwylliannol yn anwybyddu gwerthusiadau o'u rhaglenni oni fydd hyn yn un o amodau penodol y cyllido.

Ar y llaw arall, gellir cynnal gwaith monitro syml ar brojectau, sy'n gallu cyfrannu at ymarferion gwerthuso. Er enghraifft, gellir gofyn i blant a phobl ifanc sy'n cyfranogi mewn project dros gyfnod o ddyddiau, wythnosau neu fisoedd, gadw cofnod, neu ddyddiadur o'u cyfranogiad. Gallai hyn fod ar bapur (a gellir defnyddio lluniau yn ogystal â geiriau), neu gallant ddefnyddio cyfryngau newydd. Er y bydd angen i weithwyr project neilltuo amser ar gyfer y gweithgarwch hwn, gallai fod yn ddefnyddiol iawn ar gyfer cyflenwi projectau yn awr ac yn y dyfodol.

Mae Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf a sefydliadau eraill wedi cael eu hannog gan Lywodraeth Cymru i ddefnyddio Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau. Dull o gynllunio gwasanaethau ac asesu eu perfformiad sy'n canolbwyntio ar y canlyniadau y mae'r gwasanaethau yn ceisio eu cyflawni yw hyn. Mae'n disgrifio canlyniadau a dangosyddion canlyniadau mewn iaith syml, yn ogystal â mesurau perfformiad clir. Mae Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau yn gofyn i ddefnyddwyr ofyn sut rydym yn perfformio. Pwy yw ein partneriaid? Beth sy'n gweithio? Beth rydym yn bwriadu ei wneud?

Gallwch dalu i gwmnïau ymgynghori preifat eich helpu i ddatblygu fframwaith gwerthuso sy'n briodol i'ch anghenion. Fodd bynnag, mae'r adnoddau isod yn dangos beth sydd ar gael i'ch helpu.

Adnoddau

Fframwaith a gynlluniwyd ar gyfer amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau, ond sy'n cael ei ddefnyddio'n llwyddiannus gan nifer o sefydliadau eraill gan gynnwys y BBC, English Heritage a Tate yw: <http://cymal.inspiringlearning.com/index.html>. Mae gwefan Annog Dysgu yn darparu cyfres o offer ymarferol a hawdd eu defnyddio i ddangos effaith gweithgareddau drwy ganlyniadau dysgu a chymdeithasol cyffredinol.

Mae <http://inspiringimpact.org/> yn annog ac yn cynorthwyo elusennau a mentrau cymdeithasol i fesur eu heffaith gymdeithasol, mesur i safon uchel, a dysgu o'r canfyddiadau. Ei nod yw darparu cymorth ac offer er mwyn i sefydliadau ddefnyddio eu hadnoddau er mwyn gwneud y gwahaniaeth cadarnhaol mwyaf i gymdeithas.

Yng ngwerthusiad Cyngor Celfyddydau Cymru o'i raglen Cyrraedd y Nod (www.celfcymru.org.uk/what-wedo/funding/cyrraedd-y-nod?diablo.lang=cym), ceir Pecyn Cymorth defnyddiol (mae templedi holiaduron, mantolenni banciau, gweithgarwch rhyngweithiol a thafleenni arsylwi ymarferwyr a nodiadau canllaw ar sut i'w defnyddio ar gael o dudalen 65 ymlaen).

Mae gwefan Cyngor Celfyddydau Lloegr (www.artscouncil.org.uk) yn cynnig llawer o syniadau, rhai ohonynt sydd ond yn berthnasol i Loegr, sy'n rhoi cyngor am ffynonellau gwahanol ar gyfer gwerthuso projectau. Cyhoeddodd Cyngor Celfyddydau Lloegr ei ganllaw ei hun ar werthuso projectau addysg celfyddydol rai blynyddoedd yn ôl.

Comhairle Ealio Thuaisceart (Cyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon) yw prif asiantaeth ddatblygu'r celfyddydau yng Ngogledd Iwerddon. Mae'n cefnogi sefydliadau celfyddydol ac yn dyrannu nawdd cronfeydd y Trysorlys a'r Loteri Genedlaethol.

Cynhyrchwyd pecyn cymorth gwerthuso ar gyfer y celfyddydau gwirfoddol a chymunedol, a gomisiynwyd gan Gyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon a gynlluniwyd gan Annabel Jackson Associates: www.proveandimprove.org/documents/VoluntaryCommunityArtsEvalToolkit_000.pdf. Mae'n ganllaw cynhwysfawr cam wrth gam i werthuso, ac argymhellir defnyddio'r gweithgarwch hwn wrth lansio project ac nid dim ond ar ddiwedd project.

Mae www.biglotteryfund.org.uk/downloads/wellbeing_evaluation_tools.pdf yn darparu dolen i ganllawiau gwerthuso lles

Ar www.manchesterbeacon.org/publications/view/10/Public-Engagement-Evaluations-Guide ceir dolen i'r ddogfen *Beacons Public Engagement Evaluation Guide*.

Ar www.alliance4usefulevidence.org ceir rhwydwaith newydd lle mae hyrwyddwyr yn defnyddio tystiolaeth mewn polisiau ac ymarfer cymdeithasol, drwy gyhoeddiadau, blogiau a chyfarfodydd.

Mae'r Athro Anne Bamford yn ymchwilydd gwerthusol sy'n gweithio yng Ngholeg Celf Wimbledon, a hi yw golygydd *The Wow Factor: Global Research Compendium on the Impact of Arts in Education* (UNESCO, 2006). Gweler: <http://raw.wimbledon.ac.uk/?q=node/20>.

Mae Sefydliad Joseph Rowntree wedi cyhoeddi canllaw yn gwerthuso projectau cymunedol (nodwch nad yw hwn yn ganllaw penodol ar y celfyddydau): www.jrf.org.uk/publications/evaluating-community-projects-practical-guide.

Arts Development UK <http://artsdevelopmentuk.org/> yw cymdeithas broffesiynol gweithwyr awdurdodau lleol a'r rhai sy'n gweithio yn sector y diwydiannau creadigol. Mae cyflwyniadau o'i seminar sy'n disgrifio'r hyn y gall y celfyddydau ei gyflawni, gan gynnwys drwy Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau, ar gael yn <http://artsdevelopmentuk.org/aduk-conference-report-evidencing-the-impact-of-the-arts/>.

Adran 5.7: Eiriolaeth ar gyfer y celfyddydau: dweud wrth bobl sut y gall y celfyddydau helpu i fynd i'r afael â thlodi plant

Eiriolaeth yw cyflwyno'r achos dros y cyfraniad y gall eich sefydliad ei wneud at leihau tlodi plant. Efallai y bydd yn rhaid i chi wneud hyn mewn ceisiadau am gael grant, neu wrth geisio cael cefnogaeth wleidyddol i'ch gwaith. Mae canfod y dadleuon a'r gwaith ymchwil a fydd yn eich helpu yn hollbwysig er mwyn eirioli'n effeithiol, felly rydym yn cynnwys rhai awgrymiadau am sefydliadau sy'n cyhoeddi deunyddiau sy'n pledio achos y celfyddydau a'r sectorau diwylliannol, yn ogystal â gwaith ymchwil mwy cyffredinol i'r hyn sy'n llwyddo i helpu pobl ifanc i oresgyn tlodi parhaus.

Un enghraifft wych o eiriolaeth dda yw gwaith FILMCLUB. Yn y gynhadledd Gweddnewid Bywydau Plant, cyflwynodd y Prif Weithredwr, Mark Higham, nifer o ddyfyniadau a chyfeiriadau allweddol a oedd yn sail i genhadaeth FILMCLUB, yn cynnwys:

Ennyn diddordeb pobl ifanc mewn addysg drwy'r celfyddydau

Mewn gormod o ysgolion ac i ormod o blant, mae addysg wedi dod yn faich di-hwyl ac ynysig. Mae angen cynnig y cyfleoedd gorau i blant, cyfleoedd sy'n ennyn eu diddordeb ac yn eu cyffroi ac sy'n eu croesawu yn ôl i fyd addysg. Mae gennyf brofiad uniongyrchol o sut y gall y celfyddydau ddenu pobl at addysg mewn ffordd ddigyffelyb.

Cadeirydd FILMCLUB a Chyn-Ysgrifennydd Parhaol Addysg, yr Arglwydd Bichard

Mantais ddiwylliannol

Os ydym am gau'r bwloch cyrhaeddiad rhaid i ni roi i blant difreintiedig yr hyn y mae eu cyfoedion dosbarth canol yn ei gymryd yn ganiataol – y celfyddydau, diwylliant, theatr, sinema, darllen...mae'r holl bethau hyn yn rhoi mantais addysgol i blant dosbarth canol.

Syr Alasdair Macdonald, Pennaeth Ysgol Morpeth yn Tower Hamlets, Llundain

Beth sy'n creu'r bwloch?

Nid rhyw, nid ethnigrwydd, nid tymor genedigaeth, nid iaith, nid ysgol, nid Awdurdod Lleol, nid crefydd, nid rhanbarth, nid maint dosbarth, ond cefndir economaidd-gymdeithasol yw'r prif gyswllt â chyrhaeddiad.

Sue Hackman, Prif Gynghorydd Lloegr ar Safonau Ysgolion

Ymgysylltiad

Mae ymgysylltiad yn rhagofyniad hollbwysig cyflawniad academaidd. Mae'r gweithgareddau hyn sy'n aml yn cael eu cyflawni orau y tu allan i'r ystafell ddosbarth, yn rhoi hwb i hunanhyder ac yn galluogi disgyblion tlotach i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol na fyddent ar gael iddynt fel arall.

Fel pennaeth nifer o unedau cyfeirio disgyblion, gyda mwy na 30 o flynyddoedd o brofiad uniongyrchol – y celfyddydau yw'r ateb ac maent yn llwyddo i ennyn diddordeb y bobl ifanc sydd wedi'u dadrithio fwyaf.

Pennaeth

Agweddau rhieni

Caiff agweddau a phrofiadau rhieni ddylanwad uniongyrchol ar hunanddelwedd a pharodrwydd plant i gyfranogi. Mae helpu rhieni i gynorthwyo eu plant yn hollbwysig er mwyn gwneud newidiadau hirdymor a datblygu uchelgeisiau.

Mae anallu i dorri'r cylch bywyd teuluol – y cylch parhaol o werthoedd negyddol tuag at addysg. Nid ydym yn cyrraedd y rhieni hynny y mae angen newid eu gwerthoedd.

Pennaeth, ysgol gynradd

Ymyrraeth gynnar

Mae rhaglenni ymyrraeth gynnar a gofal y blynyddoedd cynnar ar gyfer teuluoedd difreintiedig yn hollbwysig er mwyn cau'r bwch cyrhaeddiad. Y rhaglenni hyn, a rhaglenni gweithgarwch diwylliannol, sy'n wynebu'r risg fwyaf.

Mae eiriolwyr FILMCLUB yn tynnu ar:

Adroddiadau ymchwil gan gyrff uchel eu parch

Roedd Adroddiad UNICEF ar Les Plant yn 2007 yn datgan bod y DU ar waelod y tabl cynghrair lles plant, o gymharu ag 20 o wledydd eraill y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, gan gynnwys gwledydd sy'n llawer tlotach na'r DU.

Eiriolwyr enwog

'Fe wnes i ddysgu cymaint drwy wyllo ffilmau ag y gwnes i yn yr ysgol. Llwyddodd hynny a'r theatr ieuenctid yr oeddwn yn aelod ohoni i agor fy llygaid i fydd addysg. Ond rwy'n teimlo fy mod yn cerdded i lawr coridor a bod yr holl oleuadau'n cael eu diffodd y tu ôl i mi.'

Yr Actor Michael Sheen, Llysgennad FILMCLUB Cymru

Yr achos dros y celfyddydau a diwylliant

Casgliad o sefydliadau sy'n gweithio ar draws y sector diwylliannol ac addysgol ac sy'n credu'n gryf bod Dysgu drwy'r Celfyddydau a Diwylliant yn Gwella Rhagolygon Bywyd Pobl Ifanc yw Cultural Learning Alliance www.culturallearningalliance.org.uk.

Yn benodol:

1. Mae dysgu drwy'r celfyddydau a diwylliant yn gwella cyrhaeddiad ym mhob pwnc
2. Mae cyfranogi mewn gweithgareddau celfyddydol strwythuredig yn gwella galluoedd gwybyddol

3. Mae myfyrwyr o deuluoedd incwm isel sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol yn yr ysgol dair gwaith yn fwy tebygol o gael gradd
4. Mae cyflogadwyedd myfyrwyr sy'n astudio pynciau celfyddydol yn uwch ac maent yn fwy tebygol o barhau mewn cyflogaeth

Mae eu gwefan yn darparu crynodebau defnyddiol a phwerus o waith ymchwil sy'n dangos sut y gall plant elwa ar brofiadau celfyddydol a diwylliannol. P'un a ydych yn paratoi eich achos i ddarpar noddwyr, neu'n dymuno dylanwadu ar eich sefydliad/staff/gwirfoddolwyr/ymddiriedolwyr, mae'n bosibl y gall deunyddiau'r CLA eich helpu i'w darbwyllo. Mae'r cyhoeddiad ***ImagineNation: the Case for Cultural Learning***, yn rhoi amlinelliad o 10 Egwyddor Dysgu Diwylliannol, a allai fod yn ddefnyddiol hefyd.

Yr egwyddorion hyn yw:

1. Dylai pob plentyn a pherson ifanc gael mynediad cyfartal i gyfleoedd dysgu diwylliannol o safon uchel.
2. Mae dysgu diwylliannol yn digwydd mewn ysgolion a cholegau a'r tu allan iddynt, ac mewn ystod o leoliadau amrywiol.
3. Mae teuluoedd, rhieni a gofalwyr yn ddarparwyr dysgu diwylliannol pwysig.
4. Pobl ifanc sy'n llunio'r tirlun diwylliannol a hwy yw gweithwyr proffesiynol y celfyddydau yn y dyfodol. Dylent gael eu grymuso a'u cynorthwyo i ymgysylltu â'r agenda dysgu diwylliannol ac arwain a llywio'r agenda honno.
5. Mae dysgu diwylliannol yn cynnwys arferion amrywiol ac mae'n cwmpasu'r celfyddydau, treftadaeth a gwybodaeth sy'n cael eu gwerthfawrogi gan bob unigolyn, diwylliant a chymuned.
6. Mae gan y pynciau celfyddydol sy'n cael eu dysgu yn yr ysgol ac mewn lleoliadau eraill fel rhan o'r cwricwlwm ddyfnder, trylwyrredd a gwybodaeth sefydledig. Mae eu gwerth, eu statws a'u pwysigrwydd yn y cwricwlwm gyfwerth â phynciau eraill, ac mae angen adnoddau a darpariaeth cyfartal ar eu cyfer.
7. Mae partneriaeth, cydweithrediad, ymrwymiad cyffredin a dull gweithredu ar y cyd gan y rhai sy'n defnyddio dysgu diwylliannol yn eu gwaith gyda phobl ifanc yn hollbwysig er mwyn ei gyflawni'n llwyddiannus.
8. Mae dysgu diwylliannol yn cyfoethogi ein bywyd cenedlaethol ac yn gwneud cyfraniad cynhenid at ein cymdeithas. Mae'n hollbwysig i ddatblygiad ein heconomi. Drwy ddysgu diwylliannol, gall pobl ifanc feithrin y sgiliau i fod yn weithwyr proffesiynol creadigol a diwylliannol ac i wneud cyfraniad effeithiol i'r gweithlu ehangach.
9. Mae'n ysbrydoli ymgysylltiad dinesig ac yn helpu cymdogaethau i wneud newidiadau cadarnhaol drwy gyd-berchenogaeth o ddiwylliant. Mae hyn yn arwain at fuddiannau personol, cymdeithasol a chymunedol ac ymdeimlad cyffredin o le.
10. Mae tystiolaeth amlwg bod dysgu diwylliannol yn arwain at ganlyniadau addysgol a chymdeithasol. Mae pobl ifanc sy'n cael y cyfle i ddysgu drwy ddiwylliant, ac am ddiwylliant, yn fwy cymwys i gyflawni ar draws y cwricwlwm, ac i gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain. Mae ymgysylltiad â diwylliant yn gwella presenoldeb, agwedd a lles. Dylai ymarfer dysgu diwylliannol gael ei lywio gan ymchwil a thystiolaeth trylwyr ar effeithiau a chanlyniadau.

Cyflwyno'r achos yng Nghymru

Mae adolygiad annibynnol Llywodraeth Cymru o'r **Celfyddydau mewn Addysg yng Nghymru** yn adolygu gwaith ymchwil academaidd o'r DU a ffynonellau rhyngwladol sydd 'yn argyhoeddiadol – ac yn aml yn angerddol – yn ategu'r achos am gynnwys y celfyddydau mewn ymarfer addysgol'. Roedd yr adolygiad yn nodi bod sawl enghraifft yn y gwaith ymchwil o ganfyddiadau penodol a oedd yn gysylltiedig â gwelliannau llythrennedd a rhifedd. Roedd yr adolygiad hefyd yn ystyried ymchwil a oedd yn canfod bod cyfranogiad yn y celfyddydau wedi helpu i wella lefelau cyflawniad academaidd pobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig.

<http://cymru.gov.uk/docs/dcells/publications/130920-arts-in-education-cy.pdf>

Gweler Cyfrol 2: Testunau a Chyd-destunau.

Mae **Fforwm Tlodi Diwylliannol Plant** Cymru, www.filmclub.org/whats-new/details/898/new-children-s-cultural-poverty-forum-fforwm-newydd-ar-dlodi-plant yn dadlau bod byw mewn tlodi yn cael effaith sylweddol ar ragolygon bywyd plentyn a bod hyn yn aml yn gwadu eu hawl i ymuno mewn ystod eang o weithgareddau diwylliannol ac artistig, yn unol ag Erthygl 31 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae'r Fforwm, sy'n gweithio gyda Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru, yn cwrdd ddwywaith y flwyddyn, a'i nod yw bod yn llwyfan cenedlaethol i wella a chynyddu argaeledd gweithgareddau a digwyddiadau diwylliannol i blant a phobl ifanc lle bynnag y maent yn byw yng Nghymru. Ei nod yw casglu gwybodaeth, annog mentrau cydweithredol a chefnogi'r broses o rannu gwybodaeth am leihau tlodi diwylliannol plant.

Yn ei adroddiad ar sut y gall ysgolion fynd i'r afael ag anfantais, mae'r asiantaeth arolygu, Estyn, yn defnyddio tystiolaeth y gwaith ymchwil yn ogystal ag ymarfer mewn ysgolion yng Nghymru, i nodi'r cyfraniad y gall darpariaeth sy'n gysylltiedig â'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth ei wneud i fynd i'r afael ag anfantais. Gweler Adran 5.2 ar Weithio gydag ysgolion.

Cysylltiadau a dolenni

www.engage.org/enquire.aspx

Mae Engage yn hyrwyddo mynediad, dealltwriaeth a mwynhad o'r celfyddydau gweledol. Mae'r wefan yn cynnwys dogfennau ymchwil ac eiriolaeth defnyddiol.

<http://www.creativitycultureeducation.org/> Mae Creativity, Culture and Education (CCE) yn ymchwilio i effaith ymarfer creadigol ar addysgu a dysgu. Nod y sefydliad yw ceisio creu sylfaen o dystiolaeth i ddangos gwerth ac effaith creadigrwydd wrth ddysgu pobl ifanc, er mwyn bod yn sail i bolisiâu ac ymarfer yn y dyfodol a chreu rhwydweithiau o academyddion a meddylwyr. Mae'r wefan yn cynnwys crynodebau defnyddiol o brif themâu'r gwaith ymchwil. Gweler hefyd ei adroddiad am gynllun pilot Find Your Talent yn Lloegr www.findyourtalent.org/

www.iser.essex.ac.uk/publications/working-papers/iser/2003-12. Gallwch lawrlwytho adroddiad a gyhoeddwyd yn 2003 o'r enw *Teenage time use as investment in cultural capital* oddi ar wefan y brifysgol.

Cyfnwidfa ymchwil addysg ar y celfyddydau yn America, a sefydlwyd gan y Bartneriaeth Addysg Gelfyddydol yw www.artsedsearch.org gyda chefnogaeth Adran Addysg yr Unol Daleithiau a'r National Endowment for the Arts (mae manylion gwefan NEA isod). Mae eu hafan yn cynnwys matrices sy'n eich galluogi i ddod o hyd i wybodaeth yn rhwydd ar y safle.

www.nea.gov yw gwefan asiantaeth ffederal annibynnol yr Unol Daleithiau, National Endowment for the Arts. Mae papurau ar y celfyddydau ac addysg ar gael ar y wefan, drwy glicio ar y gwymplen ar gornel dde uchaf yr hafan.

www.disabilityartscymru.co.uk/cy/ Mae Celfyddydau Anabledd Cymru yn 'hyrwyddo, yn cefnogi ac yn eiriol dros artistiaid Anabl a B/byddar yng Nghymru' gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau eraill ar brojectau celfyddydol a rhoi cyngor ar faterion sy'n gysylltiedig ag anabledd a'r celfyddydau.

Mae Artswork, asiantaeth sy'n datblygu celfyddydau ieuencid www.artswork.org.uk/home a www.artswork.org.uk/enyan-home yn ceisio gweddnewid bywydau plant a phobl ifanc drwy'r celfyddydau ac ymarfer diwylliannol, gyda chefnogaeth Cyngor Celfyddydau Lloegr. Mae Artswork yn rhoi'r celfyddydau wrth graidd ei waith gyda phlant a phobl ifanc, gan blant a phobl ifanc ac ar eu rhan. Mae'n hyrwyddo gwaith o safon uchel sy'n cael ei arwain gan artistiaid a sefydliadau celfyddydol a diwylliannol. Mae'n gweithio drwy gynghreiriau strategol gyda sectorau'r celfyddydau, diwylliant, addysg, ieuencid a chymuned ac yn hyrwyddo cyfleoedd sy'n cynyddu'r cyfleoedd i blant a phobl ifanc arwain, cyfranogi, gweithio, profi a mwynhau'r celfyddydau.

Adroddiadau eiriolaeth ar brojectau penodol

Dogfen eiriolaeth sy'n rhoi crynodeb o ymarfer ac effeithiau partneriaeth rhwng amgueddfeydd ac ysgolion ym Manceinion 2004-2010:

<http://museumdevelopmentnorthwest.files.wordpress.com/2012/06/magpie-report-final-jun.pdf>

I didn't know I Could: Museums and Young People Looked After:

http://www.sharemuseumseast.org.uk/shares/resource_106.pdf (crynodeb)

<http://www.local-level.org.uk/uploads/8/2/1/0/8210988/maclareportfinal.pdf> (adroddiad llawn)

Adran 5.8: Cyllid

Prif themâu

Mae'n rhaid i bob un ohonom yn y sectorau diwylliannol a threftadaeth gynyddu ein refeniw o ffynonellau cyllid preifat, er na fydd gennym syniad weithiau ble i ddechrau chwilio. Rydym yn cynnwys darparwyr cyllid a ffynonellau gwybodaeth ac arweiniad yn ein rhestr o gysylltiadau. Yn ogystal ag ystyried noddwyr sy'n gallu eich cynorthwyo'n uniongyrchol, gallai fod yn werth

ystyried cyllid y gall sefydliadau eraill gael gafael arno, i ariannu eich gwaith gyda hwy. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno'r **Grant Amddifadedd Disgyblion Cymunedau yn Gyntaf** sy'n cael ei fuddsoddi'n uniongyrchol mewn ysgolion ar ffyrdd o fynd i'r afael â thlodi. Mae hyn yn cefnogi cydweithrediad rhwng ysgolion a chymunedau lleol, gan adeiladu ar arfer da sy'n dangos bod ysgolion mewn ardaloedd heriol yn cael canlyniadau gwell pan fyddant yn mynd â dysgwyr i mewn i'r gymuned, ac yn gwahodd y gymuned i'r ysgolion.

Adnoddau

Mae'n bwysig astudio gwefannau darparwyr nawdd yn ofalus, oherwydd maent yn aml yn dangos i chi pa fathau o grantiau a chyllid arall y gallant ei ddarparu, beth yw ei ddiben a'r cyfnod cyllido, a ph'un a ydynt ond yn croesawu ceisiadau ar adegau penodol.

Ar wefan yr **Association of Charitable Foundations** www.acf.org.uk mae taflenni y gallwch eu lawrlwytho, ffeithiau a ffigurau ynglŷn â nawdd gan ymddiriedolaethau elusennol a dolenni i wefannau ymddiriedolaethau a sefydliadau.

Mae'r **Directory of Social Change** www.dsc.org.uk yn cyhoeddi canllawiau a chyfeirlyfrau i'r rhai sy'n chwilio am gyllid, yn ogystal â newyddion am gyfleoedd hyfforddi a chodi arian ac yn y blaen. Mae'r DSC yn cynnig gwefan danysgrifio www.trustfunding.org.uk sy'n rhoi newyddion am gyllid sydd ar gael.

Mae gan **Lywodraeth y DU** wefan sy'n darparu gwybodaeth am y cyllid sydd ar gael gan y Llywodraeth. Mae gan y Loteri Genedlaethol wefan debyg sy'n rhoi gwybodaeth.

Un o gynlluniau grantiau'r Loteri, sy'n ariannu projectau bach cymunedol lleol yn y DU, yw **Arian i Bawb** www.biglotteryfund.org.uk/welsh/global-content/programmes/wales/awards-for-all-wales. Mae gan bob gwlad yn y DU ei rhaglen ei hun ac mae angen i chi gadarnhau eich cymhwyster: nid yw projectau gyda thema dreftadaeth, er enghraifft, yn gymwys bellach yng Nghymru.

Y **Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol** www.ncvo.org.uk/practical-support/funding yw prif gorff mantell y sector gwirfoddol a'r sector cymunedol yn Lloegr, ac mae'n rhoi cyngor a chymorth i gymdeithas sifil. Yng Nghymru, mae gwefan **Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru** www.wcva.org.uk/home?seq.lang=cy-GB yn cynnwys tudalennau ar eu gwefan sy'n darparu siop un stop sy'n cynnig cyngor am gyfleoedd cyllido. Mae'n bosibl y bydd sefydliadau preifat megis **Ymddiriedolaeth Esmée Fairbairn** www.esmeefairbairn.org.uk, **Sefydliad Paul Hamlyn** www.phf.org.uk, a **Sefydliad Joseph Rowntree** www.jrf.org.uk, yn gallu cynnig grantiau ar gyfer gweithgareddau penodol neu weithiau gallant wneud cais am gynigion cyllido (Rowntree). Bydd Sefydliad Paul Hamlyn yn cynorthwyo projectau y gallai elusennau eraill fod yn amharod i'w hariannu, er enghraifft pan fydd lefel o arloesedd neu risg a allai atal projectau rhag bod yn gymwys o dan reolau elusennau eraill. Mae'r **Tudor Trust** www.tudortrust.org.uk yn cynnig grantiau ar gyfer projectau cymunedol, sy'n gallu cynnwys gweithgareddau diwylliannol, ond dylech wneud yn siŵr bod eich sefydliad yn gymwys i wneud cais (er enghraifft, nid yw prifysgolion yn gymwys).

Mae rhwydwaith **Community Foundations** www.communityfoundations.org.uk yn cwmpasu'r

rhan fwyaf o'r DU, drwy 56 o grwpiau, a sefydlwyd i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd cyllid sydd ar gael i gynorthwyo projectau cymunedol.

Mae cyllid o ffynonellau preifat yn gallu ein helpu i ddenu cyllid ychwanegol o ffynonellau cyhoeddus, yn arbennig cyllid yr Undeb Ewropeaidd. **Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru** <http://wefo.wales.gov.uk/?skip=1&lang=cy> sy'n rheoli rhaglenni'r cronfeydd strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru ac mae'n goruchwyllo'r trafodaethau am raglenni 2014-2020 ar hyn o bryd (bydd y rhaglenni presennol yn dod i ben ar ddiwedd y flwyddyn hon). Sefydlwyd Fforwm Partneriaeth Rhaglenni Ewropeaidd i drafod y rhaglenni newydd. Ei swyddogaeth yw darparu cyngor ac arweiniad i Weinidogion Cymru (nad yw unrhyw un ohonynt yn cynrychioli'r sectorau diwylliannol neu dreftadaeth yn uniongyrchol) a disgwylir i'r aelodau ymgynghori a chyfathrebu'n eang gyda'u grwpiau rhanddeiliaid. Mae'r sector diwylliannol wedi profi rhywfaint o lwyddiant wrth sefydlu projectau traws-wladol o dan y rhaglenni 'cydweithredu tiriogaethol', gyda phrojectau yn cynnwys Toolquiz www.toolquiz.org, y mae eu partneriaid yn cynnwys Celfyddydau Rhyngwladol Cymru a Phrifysgol Bangor.

Ffynonellau gwybodaeth a chyllid eraill

www.governmentfunding.org.uk

Canllawiau ar arian y loteri, sefydliadau sy'n dosbarthu arian y loteri, astudiaethau achos: www.lotterygoodcauses.org.uk

Blwch negeseuon ar gyfer cwestiynau neu sylwadau am raglenni cronfeydd strwythurol yr UE 2014-2020

WEFO-Post2013Programmes@cymru.gsi.gov.uk

www.biglotteryfund.org.uk

www.britishcouncil.org/comenius-regio-partnerships.htm

Ymddiriedolaeth Frank Buttle: www.buttletrust.org

Plant Mewn Angen y BBC: www.bbc.co.uk/programmes/b008dk4b/features/grants

www.comicrelief.com

Cronfa Dreftadaeth y Loteri: www.hlf.org.uk / wales@hlf.org.uk

www.rankfoundation.com

Lluniwyd gan Ceri Black, Judith Ingram a Jacqueline Brown a golygwyd gan Owain Rhys o Amgueddfa Cymru